Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Adroddiad ar yr ymchwiliad i Addysg a Dysgu Proffesiynol Athrawon

Rhagfyr 2017



www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddPPIA@assembly.wales**
Twitter: **@ SeneddPPIA**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Adroddiad ar yr ymchwiliad i Addysg a Dysgu Proffesiynol Athrawon

Rhagfyr 2017

www.cynulliad.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 28 Mehefin 2016 i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): addysg, iechyd a llesiant plant a phobl ifanc Cymru, gan gynnwys eu gofal cymdeithasol.

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Lynne Neagle AC**
Llafur Cymru
Torfaen

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Michelle Brown AC**
UKIP Cymru
Gogledd Cymru



**Hefin David AC**
Llafur Cymru
Caerffili



**John Griffiths AC**
Llafur Cymru
Dwyrain Casnewydd



**Llyr Gruffydd AC**
Plaid Cymru
Gogledd Cymru



**Darren Millar AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin Clwyd



**Julie Morgan AC**
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



**Mark Reckless AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru

Roedd yr Aelod a ganlyn yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Mohammad Asghar AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru

Roedd yr Aelod canlynol yn bresennol fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Andrew RT Davies AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Canol De Cymru

# Cynnwys


Crynodeb Gweithredol / Rhagair y Cadeirydd ..... 5

Argymhellion a Chasgliadau ..... 7

01. Cyflwyniad a Dull Gweithredu'r ymchwiliad ..... 11

02. Y cefndir i'r polisi ..... 13

03. Parodrwydd athrawon ar gyfer y diwygiadau parhaus i'r cwricwlwm ..... 18

04. Mynediad at gyfleoedd datblygu proffesiynol o safon uchel ..... 20

05. Recriwtio a chadw athrawon ..... 26

06. Y safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth ..... 35

07. Materion eraill ..... 40

Atodiad A – Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar ..... 44

Atodiad B – Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig ..... 45

# Crynodeb Gweithredol / Rhagair y Cadeirydd

O ysgolion cynradd i'n sefydliadau addysg uwch, mae newid radical ar droed i'r system addysg yng Nghymru, a fydd yn effeithio'n sylweddol ar ddysgwyr a'r proffesiwn addysgu. Wrth i'r cwricwlwm newydd gael ei ddatblygu a'i weithredu, mae'n hanfodol bod y gweithlu addysgu yn derbyn yr hyfforddiant a'r cyfleoedd datblygu sydd eu hangen i ddiwallu'r gofynion a ddaw yn sgil y newidiadau sydd i ddod.

Gall rôl hollbwysig athrawon gael ei rhoi i'r neilltu gan eitemau newyddion y dydd, boed hynny ynghylch y canlyniadau PISA a TGAU neu'r trefniadau brandio diweddaraf i ysgolion. Ond y tu hwnt i'r penawdau newyddion, mae corff o unigolion sy'n ymroddedig i addysgu cenedlaethau'r dyfodol. Mae'n amlwg bod angen gweithredu ar fyrder i roi pob cyfle i'n haddysgwyr fynnu drwy gydol eu gyrfa, a chreu diwylliant o ddatblygu personol, gan roi i'r proffesiwn yr urddas y mae cymaint o'i angen arno.

Mae'n hollbwysig gallu recriwtio a chadw athrawon yn y proffesiwn i sicrhau ein bod yn cyflawni ein huchelgais o greu cenedl fedrus a dysgedig. Mae nifer yr athrawon sy'n edrych i adael y proffesiwn yn bryder mawr felly, yn enwedig o'i ystyried yn unol â'r ffigurau cyfredol sy'n dangos na chyrhaeddir targedau cofrestru ar gyfer athrawon newydd dro ar ôl tro. Hwyrach bod hyn o ganlyniad i'r farn ymddangosiadol wael ynghylch gyrfa yn addysgu neu oherwydd y farn am y llwyth gwaith, mae angen clir am arweinyddiaeth a gweithredu cryf gan Lywodraeth Cymru a'n harweinwyr yn y byd addysg yng Nghymru.

Yn anad dim, fodd bynnag, y mae'r angen pendant i sicrhau bod addysgu yng Nghymru o'r radd flaenaf, ac yn parhau felly yn y dyfodol. Yn gynharach eleni, mewn datganiad i'r Cynulliad ar arweinyddiaeth addysgol, ailadroddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ei chred:

> "the quality of our education system cannot exceed the quality of our teachers."


Yn ei Adroddiad Blynyddol 2015-16, dywedodd y Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru:

> "Y ffactor pwysicaf o ran pa mor dda y mae dysgwyr yn datblygu a dysgu yw ansawdd yr addysgu."

Rhaid inni sicrhau, felly, ein bod yn gwneud popeth y gallwn i ddarparu'r hyn sydd eu hangen ar y proffesiwn i sicrhau ansawdd yr addysgu. Rydym yn cydnabod mor hanfodol yw addysg gychwynnol dda i athrawon ar gyfer dyfodol ein pobl ifanc. Rydym hefyd yn cydnabod yr effaith y mae cyfleoedd datblygu personol yn ei chael ar athrawon "wrth eu gwaith".

Derbyniodd y Pwyllgor ystod eang o dystiolaeth ysgrifenedig a llafar, a braf iawn gennyf oedd gweld 837 o gfywlyniadau i'n harolwg ar-lein wedi'i anelu at ymarferwyr addysg. Ar ran y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, hoffwn ddiolch i'r gweithwyr proffesiynol a'r sefydliadau a roddodd eu hamser yn barod i lywio hynt yr ymchwiliad hwn. Mae'r arbenigedd a'r cyngor amhrisiadwy yr ydym ni wedi eu derbyn wedi ein cynorthwyo i lunio'r argymhellion y gobeithiwn iddynt fod yn ymarferol a defnyddiol.

Bydd y Pwyllgor yn parhau i graffu ar waith Llywodraeth Cymru ac yn cynnig argymhellion adeiladol ac ystyrlon, er mwyn helpu i sicrhau llwyddiant y newidiadau parhaus i addysg yng Nghymru.



Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

## Argymhellion a Chasgliadau

**Argymhelliad 1.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet gynnal gwaith ar fyrder i sicrhau y paratoir y gweithlu cyfan ar gyfer y newidiadau sydd i ddod i'r cwricwlwm, gan gynnwys datblygu cynllun gweithredu manwl. ........................................... Tudalen 19

**Argymhelliad 2.** Rhaid i Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod cyfleoedd dysgu gan ysgolion arloesi yn cael eu rhannu'n ehangach ar draws y proffesiwn addysg yn gyffredinol, i helpu i sicrhau bod y gweithlu addysg yn gwbl ymwybodol o ddatblygiadau ac yn barod ar gyfer y diwygiadau sydd i ddod. ................ Tudalen 25

**Argymhelliad 3.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet archwilio sut i ddefnyddio diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd yn well, gan roi amser i athrawon fyfyrio ar eu gwaith proffesiynol. .......................................................................................... Tudalen 25

**Argymhelliad 4.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ystyried hybu rhagor o ddysgu arferion ymhlith cydweithwyr, ac annog mwy o gyfleoedd datblygu a hyfforddi o fewn yr ystafell ddosbarth, er mwyn sicrhau gwell cydbwysedd ar gyfer datblygu proffesiynol. ..........................................................................................Tudalen 25

**Argymhelliad 5.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor, wedi i'r flwyddyn academaidd nesaf ddod i ben, ynghylch y rhaglenni i dreialu rôl Rheolwyr Busnes ar gyfer Ysgolion. ........................................... Tudalen 25

**Argymhelliad 6.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ystyried sefydlu system achredu sy'n sicrhau ansawdd y cyfleoedd datblygu proffesiynol sydd ar gael... Tudalen 25

**Argymhelliad 7.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch gwerthusiadau mewnol/allanol consortia o'r cyfleoedd datblygu proffesiynol sydd ar gael. Dylid cyhoeddi manylion y gwerthusiadau hynny, a dylid rhannu canlyniadau'r gwerthusiadau â'r Cynulliad. ......... Tudalen 25

**Argymhelliad 8.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor, wedi i'r flwyddyn academaidd nesaf ddod i ben, ynghylch effaith canllawiau Estyn ar gyfer athrawon i leihau'r llwyth gwaith. ..................... Tudalen 25

**Argymhelliad 9.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi diweddariad i'r Pwyllgor unwaith y cytunir ar delerau'r adolygiad thematig ar ansawdd y ddarpariaeth dysgu proffesiynol sydd i ddod. ................................................................ Tudalen 25

**Argymhelliad 10.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet gynnal gwerthusiad cynnar o'r ymgyrch Darganfod Addysgu i bennu a fu'n llwyddiant ac a ddylid rhoi mwy o adnoddau i'r ymgyrch i'w datblygu ymhellach. Yn benodol, dylai'r gwerthusiad ystyried y meysydd mwy difrifol hynny lle bo prinder athrawon, a phennu a oes angen ymgyrchoedd recriwtio penodol sy'n fwy uniongyrchol. ............... Tudalen 33

**Argymhelliad 11.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet werthuso effaith y cymhellion recriwtio athrawon cyfrwng Cymraeg newydd, ac effaith y £4.2 miliwn ychwanegol i gefnogi addysgu a dysgu'r Gymraeg, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn. ............... Tudalen 33

**Argymhelliad 12.** Rhaid i Ysgrifennydd y Cabinet weithredu ar fyrder i gynyddu lefelau recriwtio athrawon o leiafrifoedd ethnig, ac i recriwtio athrawon ar gyfer ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig. ............... Tudalen 33

**Argymhelliad 13.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ofyn i'r Fforwm Arbenigol ar Addysg Gychwynnol i Athrawon ystyried y materion a'r pryderon a nodwyd yn yr adroddiad hwn, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor. ............... Tudalen 33

**Argymhelliad 14.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet annog mwy o ddefnydd ar draws Prifysgolion Cymru o'r cynllun sydd ar waith yn Imperial College Llundain lle bo israddedigion yn cael profiad o addysgu mewn modiwlau sy'n rhan o'u gradd arferol. ............... Tudalen 33

**Argymhelliad 15.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet gynnal gwaith i bennu'r graddau y mae llwyth gwaith athrawon yn rhwystr i recriwtio. ............... Tudalen 33

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi mewn gwaith ymchwil i bennu lefelau gwastraffu athrawon a'r rhesymau dros hynny. Ochr yn ochr â hyn, dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau y cynhelir cyfweliadau ymadael trylwyr â'r sawl sy'n gadael y proffesiwn i bennu'r rhesymau dros adael. ............... Tudalen 33

**Argymhelliad 17.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet archwilio ymhellach a oes digon o gefnogaeth ar gyfer athrawon newydd yn y blynyddoedd cynnar, a dylid ystyried datblygu cynllun mentora mwy cadarn ar eu cyfer. ............... Tudalen 34

**Argymhelliad 18. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi ystyriaeth bellach i gymhlethdod a hygyrchedd y safonau i sicrhau bod pawb ar draws y proffesiwn yn gallu cael mynediad at y safonau yn y fformat gorau iddyn nhw, ac mewn modd sy'n ei gwneud yn hawdd ymgorffori'r safonau yn eu harferion gwaith. ....................Tudalen 39**

**Argymhelliad 19. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ystyried i ba raddau y mae'r safonau proffesiynol newydd yn cynnig llinell sylfaen ddigonol ar gyfer perfformiad athrawon, a diwygio'r safonau i gynnwys mesur i nodi'r safonau a ddisgwylir gan athrawon er mwyn ymgymryd â'u rolau'n effeithiol. ......Tudalen 39**

**Argymhelliad 20. Dylid ymestyn cylch gorchwyl Cyngor y Gweithlu Addysg iddo fod yn gyfrifol am safonau proffesiynol. ....................Tudalen 39**

**Argymhelliad 21. Dylid ymestyn cylch gorchwyl Cyngor y Gweithlu Addysg er mwyn rhoi iddo'r pŵer i wahardd athrawon dros dro mewn amgylchiadau priodol. Tudalen. .................... Tudalen 39**

**Argymhelliad 22. Rhaid i Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod athrawon cyflenwi yn cael mynediad llawn at gyfleoedd datblygu proffesiynol. ....................Tudalen 40**

**Argymhelliad 23. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod mwy o gefnogaeth i'r defnydd o'r Pasbort Dysgu Proffesiynol, o ystyried ei botensial, a'r arian sydd eisoes wedi'i wario arno. Gallai'r cynnydd yn y gefnogaeth elwa yn sgil gwerthusiad o'r ffordd y mae'r PDP presennol yn cael ei ddefnyddio, ynghyd â'r rhwystrau rhag ei ddefnyddio. ....................Tudalen 42**

**Argymhelliad 24. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ymchwilio i'r potensial o alinio'r Pasbort Dysgu Proffesiynol yn well â Hwb, adnodd ar-lein Llywodraeth Cymru. ....................Tudalen 42**

**Argymhelliad 25. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet werthuso effaith Hwb i weld sut y gellir ei ddefnyddio ymhellach i fod o fudd i'r gweithlu. ....................Tudalen 43**

**Casgliad 1. Nid yw'r gweithlu addysg yn barod i'r cwricwlwm newydd gael ei weithredu ar hyn o bryd. ................................................................Tudalen 19**

**Casgliad 2. Rhaid mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi'r ffaith na chyrhaeddir targedau cyrsiau Addysg Gychwynnol i Athrawon er mwyn sicrhau ansawdd yr addysgu sy'n ofynnol, cynyddu niferoedd athrawon, a llenwi lleoedd ar y cyrsiau. Pryder arbennig yw'r prinder athrawon mewn meysydd penodol. ..........Tudalen 33**

**Casgliad 3. Mae angen mwy o ymchwil am addysg yng Nghymru, a byddai nifer y diwygiadau addysg penodol i Gymru yn elwa ar gael mwy o waith craffu a dadansoddi academaidd. ................................................................Tudalen 41**

**Casgliad 4. Dylid gwerthfawrogi datblygiad proffesiynol athrawon ynddo'i hun, a'i gydnabod fel offeryn i gefnogi twf athrawon, yn hytrach nag offeryn rheoli perfformiad. ................................................................Tudalen 43**

# 01. Cyflwyniad a Dull Gweithredu'r ymchwiliad

**1.** Mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cynnal ymchwiliad i addysg a dysgu proffesiynol athrawon. Yn benodol, mae'r Pwyllgor wedi edrych ar barodrwydd y gweithlu i weithredu'r cwricwlwm newydd, ac mae wedi cymryd tystiolaeth yn benodol ar:

- drefniadau o ran datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer y gweithlu presennol;
- rôl addysg gychwynnol i athrawon;
- digonolrwydd y gweithlu ar gyfer y dyfodol; a
- safonau proffesiynol newydd i athrawon.

**2.** Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio yng nghyd-destun y diwygiad sylweddol i'r system addysg yng Nghymru. Cyfeiriodd Huw Lewis, y cyn Weinidog Addysg a Sgiliau, at y modd y gweithredir adroddiad yr Athro Furlong sef "Addysgu Athrawon Yfory", adroddiad Dyfodol Llwyddiannus yr Athro Donaldson, ac adroddiad "Y Fargen Newydd ar gyfer y Gweithlu Addysg", fel "diwygiad tairochrog".

**3.** Mae'r "diwygiad tairochrog" hwn yn rhan o gynllun gwella addysg ehangach Cymwys am Oes 2014-2020, a gyflwynwyd i godi safonau mewn ysgolion yng Nghymru. Cyhoeddwyd Cymwys am Oes ym mis Hydref 2014. Ail-lansiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg y cynllun ym mis Medi 2017, gan ei alw'n Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl 2017-21.[1] Mae "datblygu proffesiwn addysg o safon uchel" yn un o "bedwar amcan galluogi" y genhadaeth genedlaethol newydd.

**4.** Rhan fawr o'r cynllun diwygio yw dylunio cwricwlwm newydd yng Nghymru, wedi'i seilio ar weledigaeth ac argymhellion adolygiad Donaldson.[2] Fel rhan o'i raglen waith barhaus, mae'r Pwyllgor yn cynnal gwaith i fonitro'r modd y caiff adolygiad Donaldson ei weithredu. Rhoddodd y Pwyllgor ei sylwadau cychwynnol ar y cynnydd yn hyn o beth i Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Ionawr 2017.[3]

**5.** Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor hefyd am adolygu agweddau eraill ar y rhaglen ddiwygio dairochrog, o ystyried eu heffaith debygol ar y proffesiwn addysgu. O ganlyniad, penderfynodd y Pwyllgor ymgymryd ag ymchwiliad i addysg a dysgu proffesiynol athrawon.

**6.** Fel rhan o'r ymchwiliad, cynhaliodd y Pwyllgor arolwg (ar y cyd â Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad) i Addysg a Dysgu Proffesiynol Athrawon, a dderbyniodd 837 o ymatebion gan bobl sy'n gweithio yn y proffesiwn addysgu.[4] Derbyniodd y Pwyllgor hefyd 28 cyflwyniad ysgrifenedig i'n hymgynghoriad agored i'r ymchwiliad. Cynhaliodd y Pwyllgor chwe sesiwn dystiolaeth, gan gynnwys un gyda Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.

**7.** Roedd y dystiolaeth a dderbyniodd y Pwyllgor yn cwmpasu ystod eang o faterion, â rhai ohonynt y tu hwnt i gylch gorchwyl gwreiddiol yr ymchwiliad hwn. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r dystiolaeth ynghylch y meysydd y cytunwyd arnynt yn y cylch gorchwyl gwreiddiol, ond efallai na chynhwysir rhai materion a godwyd sydd y tu hwnt i'r cylch gorchwyl. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth neu a gyfrannodd at yr arolwg.

---

[1] Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl 2017-21
[2] Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru
[3] Llythyr y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Ysgrifennydd y Cabinet: Ionawr 2017
[4] Arolwg y Pwyllgor i Addysg a Dysgu Proffesiynol Athrawon - crynodeb o'r canlyniadau

## Camau a gymerwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ers dechrau'r ymchwiliad

**8.** Yn ystod yr ymchwiliad, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet / Llywodraeth Cymru nifer o ddatganiadau a chyhoeddiadau yn ymwneud â'r meysydd polisi sy'n destun yr ymchwiliad, ac effeithiodd y rhain yn sylweddol ar ystyriaethau'r Pwyllgor o'r dystiolaeth a gafwyd, ac ar nifer o'i ganfyddiadau ac argymhellion cychwynnol.

**9.** Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad ar Arweinyddiaeth mewn Addysg[5] a chyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.[6] O ganlyniad i hyn (ac wedi ystyried y dystiolaeth a gafwyd), cytunodd y Pwyllgor y byddai'n briodol casglu rhagor o wybodaeth.

**10.** Yn benodol, cytunodd y Pwyllgor i ofyn am ragor o dystiolaeth ynghylch y safonau proffesiynol newydd. Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad arall ag iddo ffocws, a chynhaliodd baneli tystiolaeth ychwanegol, gan gynnwys yr Athro Mick Waters, ymgynghorydd Llywodraeth Cymru ar safonau proffesiynol i athrawon. Yn ogystal, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan y Consortia Addysg Rhanbarthol ynghylch eu gwaith strategol hwy i ddiwygio addysg i broffesiynol athrawon.

**11.** Ar 26 Medi 2017, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet y gwnaed estyniad i'r llinell amser ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd, gyda'r dyddiad cyflwyno statudol yn newid o fis Medi 2021 i fis Medi 2022.[7] Cadarnhaodd y cyhoeddiad hwnnw hefyd mai proses raddol fyddai cyflwyno'r cwricwlwm newydd ar draws yr ysgolion uwchradd. Gwnaed y cyhoeddiad hwn wedi i'r Pwyllgor orffen trafod y dystiolaeth a dderbyniwyd, ac felly ni adlewyrchir goblygiadau hyn yn yr adroddiad.

**12.** Ar 24 Hydref 2017, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet newidiadau i'r system gymhelliant yng Nghymru ar gyfer recriwtio athrawon. Fe wnaeth Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn ynghylch Recriwtio Athrawon.[8] Dywedodd y byddai cymhellion newydd i helpu i recriwtio athrawon yn cael eu lansio o 2018/19.

[5] Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Datganiad Llafar, 16 Mai 2017
[6] Safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth: Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad
[7] Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Datganiad Llafar, 26 Medi 2017
[8] Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Datganiad Llafar, 24 Hydref 2017

# 02. Y cefndir i'r polisi

**13.** Ar 7 Hydref 2013, nododd Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, farn Llywodraeth Cymru mai:

> "Un o'r ffactorau allweddol ar gyfer gwella cyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc yw hyfforddi athrawon i'r safon uchaf bosibl."[9]

**14.** Nododd nifer o adroddiadau dilynol nad yw'r trefniadau ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon a datblygiad proffesiynol athrawon yng Nghymru yn arwain at y canlyniadau sydd eu hangen. Er enghraifft, yn Adolygiad yr Athro Ralph Tabberer yn 2013 o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, canfuwyd mai:

> "Digonol yw safon HCA yng Nghymru ar hyn o bryd, a dim gwell … Yr her yw y gallai HCA fod yn well. Ac i helpu codi safonau ledled Cymru, mae angen iddo fod yn well o lawer."[10]

**15.** Cyhoeddodd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) adroddiad ym mis Ebrill 2014, sef: Improving Schools in Wales: An OECD perspective. Yn yr adolygiad hwnnw, nododd yr OECD y diffyg opsiynau o ran cynnydd gyrfaol a datblygiad proffesiynol ar gyfer y gweithlu addysgu. Argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru:

> "Raise the status of the profession and commit to initial teacher training… Ensure quality continuous professional development at all career stages."[11]

**16.** Ym mis Mawrth 2015, cyhoeddodd yr Athro John Furlong ei adroddiad 'Addysgu Athrawon Yfory'.[12] Canfu'r adroddiad fod "angen i addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru newid" gan "fod yna gonsensws eang nad yw hi, er gwaethaf rhai cryfderau yn y ddarpariaeth gyfredol, yn ddigon uchel ei safon". Canfu hefyd fod newid ei angen oherwydd y "newid yn natur addysg ysgolion yn yr 21ain ganrif".

**17.** Mae'r materion hyn wedi aros ar frig yr agenda wleidyddol, wrth i Kirsty Williams, yr Ysgrifennydd Cabinet presennol dros Addysg, nodi ei blaenoriaethau mewn papur i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:

> "I recognise the shortcomings in initial teacher training and continuing professional development and their implications for school standards generally as well as the programme of curriculum reform, on which we have embarked to realise the benefits set out in Professor Graham Donaldson's report, Successful Futures."[13]

**18.** Yn fwy diweddar ym mis Mai 2017, mewn datganiad llafar ar arweinyddiaeth addysgol, ailadroddodd Kirsty Williams ei barn fel a ganlyn:

---

[9] Datganiad Ysgrifenedig, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, 7 Hydref 2013
[10] Adolygiad o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru
[11] Improving Schools in Wales: An OECD perspective
[12] Addysgu Athrawon Yfory
[13] Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, papur i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Gorffennaf 2016

> "the quality of our education system cannot exceed the quality of our teachers."[14]

**19.** Yn ei Adroddiad Blynyddol 2015-16 (Ionawr 2016), cytunodd y Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru â hyn, gan bwysleisio mai:

> "Y ffactor pwysicaf o ran pa mor dda y mae dysgwyr yn datblygu a dysgu yw ansawdd yr addysgu."[15]

**20.** Nododd hefyd:

> "Fodd bynnag, addysgu yw un o'r agweddau gwannaf ar y ddarpariaeth yn y rhan fwyaf o sectorau."[16]

**21.** Eglurodd y Prif Arolygydd mewn tystiolaeth lafar fod y datganiad hwn yn adlewyrchu'r pedair elfen o ddarpariaeth addysg a fesurir yn y fframwaith arolygu presennol, sef addysgu; y cwricwlwm a phrofiadau dysgu; gofal, cymorth ac arweiniad; a'r amgylchedd dysgu gan gynnwys cydraddoldeb ac amrywiaeth - ac addysgu oedd y gwannaf o'r rhain.

## Y 'Fargen Newydd' a 'dysgu proffesiynol'

**22.** Mae datblygiad proffesiynol parhaus yn hanfodol er mwyn cyflawni gofynion newidiol y proffesiwn addysgu. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys gweithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol mwy diweddar, yn ogystal â diwygio'r cwricwlwm cyfan yn barhaus yn dilyn adroddiad Dyfodol Llwyddiannus yr Athro Donaldson.

**23.** Dylid ystyried yr angen i wella datblygiad proffesiynol athrawon yng nghyd-destun cyflwyno diwygiadau eraill, er ei fod hefyd yn flaenoriaeth ynddo'i hun. Ymateb Llywodraeth Cymru yw ei 'Bargen Newydd ar gyfer y gweithlu addysg' neu'r 'cynnig dysgu proffesiynol' fel y'i hadwaenir bellach.

**24.** Cyhoeddwyd 'y Fargen Newydd ar gyfer y gweithlu addysg' mewn Datganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 10 Mehefin 2014, gan Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd.[17] Datgelwyd rhagor o elfennau'r 'Fargen Newydd' mewn Datganiad Ysgrifenedig, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015[18] (ac mewn datganiad i'r wasg ym mis Chwefror 2016[19]). Gyda'i gilydd, maent yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wneud datblygiad proffesiynol o safon 'yn rhan o brofiad proffesiynol pob ymarferwr gan gynorthwyo â chynnydd gyrfaol beth bynnag yw dyheadau'r ymarferwyr'. Daeth yr ymrwymiad hwn ynghyd â rhwymedigaeth gyfatebol ar 'ymarferwyr i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu datblygiad eu hunain ac i rannu eu harfer gydag eraill'.

**25.** Yn ddiweddar, nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn ei phapur i'r Pwyllgor fel rhan o'i waith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2017-18 fod y term 'Y Fargen Newydd' wedi cael ei "ail-frandio a'i ail-ffocysu" gan Lywodraeth Cymru.[20] Fodd bynnag, nododd Kirsty Williams ei bwriad i sicrhau bod "cynnig dysgu proffesiynol cyson" ar gael i bob ymarferydd ar draws Cymru erbyn Gorffennaf 2018.

[14] Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Datganiad Llafar, 16 Mai 2017
[15] Adroddiad Blynyddol Estyn 2015-16
[16] Adroddiad Blynyddol Estyn 2015-16
[17] Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Datganiad Llafar, 10 Mehefin 2014
[18] Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Datganiad Ysgrifenedig, 16 Mawrth 2015
[19] Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Datganiad i'r Wasg, 4 Chwefror 2016
[20] Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, papur i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Tachwedd 2016

Byddai hyn cyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd, a ddylai fod ar gael i ysgolion o fis Medi 2020, cyn ei gyflwyno'n statudol ym mis Medi 2022.

**26.** Serch hynny, dywedodd Prifysgol Caerdydd mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r pwyllgor nad yw "manylion y 'Fargen Newydd' wedi'u deall a'u gweithredu'n llawn yn y proffesiwn eto". Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg ei fod yn teimlo:

> "…[the] 'promise' of the 'New Deal for the education workforce' has not come to fruition, and there has not been any subsequent announcement to reassure the workforce that professional development for teachers remains a key focus for Welsh Government."[21]

**27.** At hynny, ym mis Tachwedd 2016, clywodd y Pwyllgor gan gynrychiolydd un o'r ysgolion arloesi mewn datblygiad proffesiynol, sydd â'r dasg o ddatblygu systemau datblygu proffesiynol newydd. Dywedodd y cynrychiolydd:

> "…we're still not being told exactly what our role is, because, of course, in this process it's supposed to be like that. However, sometimes, I think that schools would prefer to know exactly what a clear role would be, what is the start point, what is the end point. I mean, if I observed a good lesson, I'd expect the children at the beginning of the lesson to know what they're expected to achieve by the end of it and, at the end, that they have achieved it. This hasn't been done in that way at all, and, as teachers, I think we find that mightily frustrating, that we haven't got that clear idea."[22]

## Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru

**28.** Yn 2014, comisiynodd Llywodraeth Cymru yr Athro John Furlong i edrych ar godi safonau yn y sector Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru. Ym mis Mawrth 2015, cyhoeddodd yr Athro Furlong ei adroddiad 'Addysgu Athrawon Yfory'.

**29.** Yn yr adran gyntaf o'i adroddiad, nododd yr Athro Furlong pam mae angen newidiadau i addysgu athrawon yng Nghymru, gan ddisgrifio'r newid fel "trobwynt hollbwysig". Tynnodd sylw at y pryderon a nodwyd gan yr Athro Tabberer, Estyn a'r OECD am ansawdd Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru. Ynghyd â'r pryderon hynny, rhybuddiodd fod gan argymhellion Adolygiad Donaldson oblygiadau sylweddol i'r gweithlu addysgu. O ganlyniad, dywedodd yr Athro Furlong fod angen hyfforddiant ehangach i athrawon er mwyn rhoi agenda Adolygiad Donaldson ar waith.

**30.** At hynny, gosododd yr Athro Furlong ddarpariaeth gyfredol Cymru yn erbyn ymchwil ryngwladol ac awgrymodd fod gwendidau ar lefel genedlaethol, sefydliadol ac ar lefel y rhaglen. Dywedodd fod angen gwneud newidiadau i bob un o'r tair lefel a gwnaeth naw argymhelliad y teimlai y byddent yn helpu i ennyn y newidiadau hyn.

**31.** Roedd y ddau argymhelliad cyntaf yn canolbwyntio ar yr hyn a ddisgrifiodd yr Athro Furlong i'r Pwyllgor fel "two major levers of change". Argymhellodd y dylid datblygu set newydd o safonau proffesiynol ar gyfer addysgu fel mater o flaenoriaeth, sy'n adlewyrchu'r pwyslais cynyddol ar ddatblygiad parhaus a'r dull gwahanol wrth weledigaeth yr Athro Donaldson ar gyfer y cwricwlwm. Argymhellodd yr Athro Furlong hefyd y dylid cael proses achredu ddiwygiedig ar gyfer darparwyr

[21] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor y Gweithlu Addysg, TT11
[22] Tystiolaeth Lafar, Ysgol y Strade, 16 Tachwedd 2016

Addysg Gychwynnol i Athrawon gan ddefnyddio dull newydd o bartneriaethau rhwng ysgolion a phrifysgolion. Yn sgil hyn, roedd angen datblygu meini prawf achredu, a ddisgrifiwyd i'r Pwyllgor gan yr Athro Furlong fel "a very light touch in Wales" ar hyn o bryd.

**32.** Mewn ymateb i gyflwyno'r adroddiad ym mis Mawrth 2015, dywedodd Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, "nad oes dim yn yr adroddiad y byddwn yn anghytuno ag ef mewn egwyddor", ond y byddai'n rhaid ystyried yr opsiynau ar gyfer gweithredu hyn. Rhoddwyd ymateb mwy llawn gan Lywodraeth Cymru mewn Datganiad Llafar yn y Cyfarfod Llawn ar 23 Mehefin 2015.[23] Yn y datganiad hwnnw, amlinellodd y cyn Weinidog sut y byddai Llywodraeth Cymru yn rhoi argymhellion yr Athro Furlong ar waith.

**33.** Ar 15 Hydref 2015, yn dilyn adroddiad arolygu beirniadol gan Estyn ar ansawdd "siomedig" Canolfan Addysg Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru, cyhoeddwyd Datganiad Ysgrifenedig gan y cyn Weinidog Addysg a Sgiliau.[24] Yn y datganiad, galwodd am gyflymu'r gwelliannau a wneir i ddarpariaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon ledled Cymru. Cyhoeddodd hefyd:

> "Byddaf yn dirwyn y system bresennol o hyfforddiant ac addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru i ben erbyn 2018. Bydd y trefniadau achredu newydd yn berthnasol i bob cwrs HAGA a fydd yn cael eu cynnal o fis Medi 2018 a bydd angen i'n Canolfannau HAGA presennol ddechrau ystyried yn awr sut y byddant yn ymateb i'r dull newydd a mwy heriol hwn."[25]

**34.** Mae'r Ysgrifennydd Cabinet presennol dros Addysg wedi parhau â'r agenda i ddiwygio Addysg Gychwynnol i Athrawon. Ar achlysur cyhoeddi'r meini prawf achredu newydd ar gyfer rhaglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon, dywedodd:

> "Dim ond os yw ein hyfforddiant cychwynnol i athrawon yn cynnig y sgiliau a'r wybodaeth ofynnol, ac yn ennyn y dymuniad i arwain y newid sy'n ofynnol, y gall y proffesiwn addysgu gyfrannu'n briodol at y broses o godi safonau addysg yn ein hysgolion."[26]

## Safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth

**35.** Ym mis Medi 2017, lansiodd Llywodraeth Cymru safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth, yn dilyn ymgynghoriad a gynhaliwyd rhwng 2 Mawrth 2017 a 4 Mai 2017.

**36.** Mae'r safonau newydd wedi:

- disodli'r safonau Statws Athro Cymwysedig (2009), y Safonau Athrawon wrth eu Gwaith (2011), a'r Safonau Arweinyddiaeth (2011);
- dwyn ynghyd safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth i adlewyrchu a chefnogi llwybrau gyrfa; ac
- wedi creu un set o safonau mynediad ar gyfer dyfarnu Statws Athro Cymwysedig a chwblhau'r cyfnod ymsefydlu.

---

[23] Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Datganiad Llafar, 23 Mehefin 2015
[24] Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Datganiad Ysgrifenedig, 15 Hydref 2015
[25] Ibid
[26] Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Cyhoeddiad y Cabinet, 15 Mawrth 2017

**37.** Yn fwy penodol mae'r safonau addysgu ac arweinyddiaeth newydd yn seiliedig ar bum elfen o ymarfer: addysgeg, arloesi, cydweithredu, arweinyddiaeth a dysgu proffesiynol, gydag addysgeg yn cael ei ystyried fel y dimensiwn pwysicaf.

**38.** Nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ei nodau ar gyfer y safonau newydd mewn llythyr at y Pwyllgor, fel rhan o'i waith craffu parhaus i'r modd y caiff adolygiad Donaldson ei weithredu, ym mis Chwefror 2017:

> "The new Professional Teaching Standards will be the cornerstone of a new teacher professionalism not only for initial teacher education but for career-long professional learning…[the new standards] are a key element of the change programme that will support the profession in preparing for their future role."[27]

**39.** Mae'n ofynnol i bob Athro Newydd Gymhwyso sy'n dechrau cyfnod ymsefydlu ar neu ar ôl 1 Medi 2017 weithio'n unol â'r safonau newydd. Bydd gofyn i bob athro presennol weithio'n unol â'r safonau newydd erbyn mis Medi 2018. Caiff y safonau newydd eu hintegreiddio fel rhan o'r trefniadau achredu ar gyfer rhaglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon newydd gan ddechrau ym mis Medi 2019.

**40.** Fodd bynnag, roedd crynodeb Llywodraeth Cymru o'r ymatebion a gafwyd i'w hymgynghoriad ar y safonau newydd yn nodi fel a ganlyn:

> "Roedd rhai ymatebwyr o'r farn fod gormod o ddisgrifyddion a bod y fframwaith o safonau yn ei gyfanrwydd yn rhy gymhleth ac yn rhoi gormod o gyfle i bobl ei ddehongli fel y mynnont. Mynegwyd pryderon hefyd am oblygiadau o ran llwyth gwaith ychwanegol a'r perygl y byddai safonau'n cael eu defnyddio mewn modd cosbol."[28]

[27] Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Llythyr at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Chwefror 2017
[28] Safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth: Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

# 03. Parodrwydd athrawon ar gyfer y diwygiadau parhaus i'r cwricwlwm

**41.** Prif amcan ymchwiliad y Pwyllgor oedd pennu a fyddai'r addysg a dysgu proffesiynol sydd ar gael ar hyn o bryd yn gallu sicrhau bod y gweithlu addysg yn barod i weithredu'r cwricwlwm newydd. Roedd canlyniadau'r arolwg ar-lein a gynhaliwyd ar y cyd rhwng y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn cynnwys ymatebion gan 837 ymarferwr addysgol,[29] gan nodi:

- Roedd llai na 50 y cant o'r ymatebwyr yn "gwbl ymwybodol o'r newidiadau parhaus a'r rhai sydd ar y gweill i'r cwricwlwm";
- Roedd 13 y cant yn cytuno eu bod yn "teimlo'n barod iawn am y newidiadau parhaus a'r rhai sydd ar y gweill i'r cwricwlwm"; ac
- Roedd 61 y cant yn anghytuno â'r datganiad bod "y rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus presennol yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth i staff sydd eu hangen arnynt i wneud eu gwaith yn effeithiol".

**42.** Adleisir y canfyddiadau hyn yn yr arolwg gweithlu a gynhaliwyd gan Gyngor y Gweithlu Addysg.[30] Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg:

> "…we need to be looking at factoring in a reasonable timescale to enable [teachers] to develop the skills necessary over a longer period of time, probably, to start engaging with the new work."[31]

**43.** Nododd undebau'r athrawon yn eu tystiolaeth lafar eu bod yn teimlo nad oedd athrawon ac ysgolion yn barod i'r cwricwlwm newydd gael ei gyflwyno. Er enghraifft, dywedodd UCAC:

> "…bod yna anwybodaeth yn y proffesiwn [o ran adroddiad Donaldson] … Rwy'n siŵr bod yr ysgolion arweiniol yma yn gweithio yn ddygn, ond mae angen rhannu'r wybodaeth yna, fel bod gweddill y proffesiwn a gweddill yr ysgolion yn gwybod hynny."[32]

**44.** Mewn tystiolaeth lafar, trafododd y consortia'r gwaith yr oeddent yn ei wneud i baratoi athrawon, a dywedwyd y bydd pob athro yng Nghymru yn gallu 'gweithio yng nghyd-destun y cwricwlwm newydd' o fis Rhagfyr 2017. Meddai'r consortia:

> "all of our professional learning focuses on improving pedagogy in line with the new standards so that teachers are better prepared for the changes that are likely to come."[33]

[29] Arolwg y Pwyllgor i Addysg a Dysgu Proffesiynol Athrawon - crynodeb o'r canlyniadau
[30] Cyngor y Gweithlu Addysg: Arolwg cenedlaethol y gweithlu addysg
[31] Tystiolaeth Lafar, Cyngor y Gweithlu Addysg, 30 Mawrth 2017
[32] Tystiolaeth Lafar, UCAC, 1 Chwefror 2017
[33] Tystiolaeth Lafar, Consortia Addysg Ranbarthol, 20 Medi 2017

## Safbwynt y Pwyllgor

**45.** Mae'r dystiolaeth a gafwyd yn yr ymchwiliad wedi dangos bod nifer o resymau pam na fydd y gweithlu yn barod o bosibl ar gyfer y diwygiadau newydd arfaethedig. Caiff y rhain eu harchwilio ar wahân yn yr adroddiad, gydag argymhellion penodol wedi'u gwneud ym mhob adran.

**46.** Pryder cyffredinol y Pwyllgor yw bod y dystiolaeth a dderbyniwyd yn awgrymu nad yw'r gweithlu yn barod i'r cwricwlwm newydd gael ei weithredu ar hyn o bryd. Noda'r Pwyllgor fod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi ymestyn yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd, gan newid y dyddiad cyflwyno statudol o fis Medi 2021 i fis Medi 2022, ac mae'n credu bod hyn, ynghyd â'r dull gweithredu'n raddol a gyhoeddwyd hefyd, yn rhoi mwy o amser i baratoi'r gweithlu yn llawn cyn gweithredu'r cwricwlwm newydd.

**47.** Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn hanfodol bod gwaith yn cael ei wneud ar fyrder i sicrhau y paratoir y gweithlu cyfan ar gyfer y newidiadau sydd i ddod i'r cwricwlwm, a chredir y dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddatblygu cynllun manwl i helpu i sicrhau hyn.

**Casgliad 1.** Nid yw'r gweithlu addysg yn barod i'r cwricwlwm newydd gael ei weithredu ar hyn o bryd.

**Argymhelliad 1.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet gynnal gwaith ar fyrder i sicrhau y paratoir y gweithlu cyfan ar gyfer y newidiadau sydd i ddod i'r cwricwlwm, gan gynnwys datblygu cynllun gweithredu manwl.

# 04. Mynediad at gyfleoedd datblygu proffesiynol o safon uchel

## Cysondeb mynediad at gyfleoedd datblygu proffesiynol

**48.** Roedd mynediad at gyfleoedd datblygu proffesiynol yn thema barhaus yn ystod yr ymchwiliad. Gwelwyd bod diffyg mynediad o'r fath yn ffactor mewn nifer o faterion, gan gynnwys parodrwydd athrawon ar gyfer y newidiadau sydd i ddod i'r cwricwlwm. Roedd hefyd yn glir o'r dystiolaeth a gafwyd nad oedd mynediad at gyfleoedd datblygu proffesiynol o safon yn gyson ledled Cymru.

Dangosodd arolwg y Pwyllgor o weithwyr proffesiynol yn y byd addysg fod y materion a ganlyn yn cyfyngu ar allu athrawon i ymgymryd â chyfleoedd hyfforddi:

- Llwyth Gwaith: 620 (78 y cant);
- Cost athrawon cyflenwi: 491 (62 y cant);
- Ymwybyddiaeth o gyfleoedd hyfforddi: 324 (41 y cant);
- Argaeledd athrawon cyflenwi: 262 (33 y cant); a
- Pellter teithio i'r lleoliad hyfforddi: 140 (18 y cant).

**49.** Roedd arolwg blynyddol diweddaraf Cyngor y Gweithlu Addysg yn nodi mai cost (69 y cant) a gwrthdaro â threfniadau gweithio a dim digon o amser (57 y cant) oedd y prif rwystrau i gael mynediad at gyfleoedd datblygu proffesiynol. Roedd un ymateb o bob pump i'r arolwg (20 y cant) yn nodi nad oedd y cyfleoedd datblygu proffesiynol perthnasol naill ai ar gael neu ddim o safon ddigonol.

**50.** At hynny, dangosodd arolwg gweithlu Cyngor y Gweithlu Addysg:

- Teimlai 26 y cant o athrawon ysgol eu bod wedi cael mynediad llawn at y cyfle datblygu proffesiynol yr oedd arnynt ei angen yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, tra bod 59 y cant o'r farn bod ganddynt rywfaint o fynediad at gyfleoedd datblygu.
- Roedd 88.3 y cant o ymatebwyr arolwg Cyngor y Gweithlu Addysg yn anghytuno eu bod yn gallu "rheoli llwyth gwaith o fewn oriau gwaith cytunedig". Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg fod athrawon amser llawn ar gyfartaledd yn gweithio 50.7 awr mewn wythnos waith gyffredin ac athrawon rhan-amser ar gyfartaledd yn gweithio 35.8 awr.

**51.** Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd Estyn:

> "There is evidence, truth be told, from the OECD, with regard to this issue worldwide, that teachers in Wales work much harder and longer hours than teachers in other nations. There are insufficient opportunities for CPD, for example."[34]

## Sicrhau cysondeb ansawdd

**52.** Mynegwyd pryder yn nifer o'r ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriad y Pwyllgor, gan ddweud oni bai bod cyfres safonol o gyrsiau hyfforddiant datblygu proffesiynol yn cael ei ddarparu ledled

[34] Tystiolaeth Lafar, Estyn, 30 Mawrth 2017

Cymru, y gellid cael anghysondeb yn y modd y gweithredir diwygiadau Llywodraeth Cymru. Roedd Cylchgrawn Addysg Cymru yn galw am "siarter addysgeg", a fyddai'n cynnwys maes llafur ar gyfer dysgu proffesiynol ac a allai helpu i sicrhau safonau cyson ledled Cymru.[35]

**53.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg:

> "…without central governance, it is difficult to maintain a CPD system which is robust and responsive enough to meet the challenges of a modern education system…It is also necessary to ensure that there is equality of access/opportunity for all schools/practitioners across consortia areas."[36]

**54.** Yn ei dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, amlinellodd y consortia y gwaith yr oedd yn ei wneud i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cynnig dysgu proffesiynol i athrawon. Meddai'r consortia:

> "[there are now] professional learning programmes for new headteachers and aspiring headteachers that are common across Wales…each of us too has a professional learning offer, which is very extensive, for all our schools and all our practitioners."[37]

**55.** Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg fod trefniant monitro cenedlaethol ar gyfer rhaglenni datblygu proffesiynol yn bosibilrwydd ac yn opsiwn ac mai dyna a welir mewn nifer o broffesiynau eraill. Aeth ymlaen i ddweud yr hoffai weld trefniadau sicrhau ansawdd cenedlaethol ar gyfer rhaglenni dysgu proffesiynol mewn swydd.

**56.** Dywedodd Estyn er bod cynnydd wedi'i wneud o ran dysgu proffesiynol:

> "…to make further progress, to take the next steps, we do need to get evaluation right… what we need to do more of is measuring the impact so that we actually can make those informed choices on what strategies work, that improve professional practice and improve the pupil experience in the classroom."[38]

**57.** Dywedodd yr Athro John Furlong wrth y Pwyllgor y dylid cael "strategaeth werthuso ehangach", sy'n edrych ar sut y mae rhaglen ddiwygio Llywodraeth Cymru yn gweithio'n ymarferol. Pan ofynnwyd iddynt am eu gwerthusiad o'r cyfleoedd datblygu proffesiynol y maent yn eu cynnig, cytunodd y consortia fod "rhaid inni werthuso" oherwydd lefel y cyllid cyhoeddus a dderbynnir. Nodwyd hefyd:

> "We all develop our own capacity to evaluate internally, but also, each of us has commissioned either universities, or bodies like Ipsos MORI or the National Foundation for Educational Research to look at specific aspects and give us feedback to feed into how we progress from there…"[39]

## Effaith llwyth gwaith athrawon ar fynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol

**58.** Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd Estyn:

---

[35] Tystiolaeth Ysgrifenedig, Cylchgrawn Addysg Cymru, TT02
[36] Tystiolaeth Ysgrifenedig, Cyngor y Gweithlu Addysg, 30 Mawrth 2017
[37] Tystiolaeth Lafar, Consortia Addysg Ranbarthol, 20 Medi 2017
[38] Tystiolaeth Lafar, Estyn, 30 Mawrth 2017
[39] Tystiolaeth Lafar, Consortia Addysg Ranbarthol, 20 Medi 2017

> "There is evidence, truth be told, from the OECD, with regard to this issue worldwide, that teachers in Wales work much harder and longer hours than teachers in other nations."[40]

**59.** Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd undeb y Gymdeithas Athrawon a Darlithwyr (sef yr Undeb Addysg Cenedlaethol bellach) fod argyfwng o ran llwyth gwaith athrawon, ac ategwyd hyn gan UCAC a ddywedodd fod y llwyth gwaith mewn ysgolion yn hynod o drwm ar hyn o bryd. Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg fod "llwyth gwaith yn parhau i fod yn broblem sylweddol i'r proffesiwn".

**60.** Mae pryderon bod y llwyth gwaith trwm hwn yn arwain at ddiffyg cydbwysedd i athrawon rhwng bywyd a gwaith. Mae pryder pellach bod athrawon newydd yn ystyried addysgu fwyfwy i fod yn yrfa anghynaladwy oherwydd y llwyth gwaith trwm sy'n lleihau'r amser sydd ganddynt i gael bywyd gartref, cynllunio gwersi a datblygu'n broffesiynol. Gall hyn arwain at anawsterau o ran recriwtio a chadw, gan beri bygythiad i gael gweithlu digonol yn y dyfodol. Gall problemau ynghylch llwyth gwaith hefyd effeithio ar ansawdd yr addysg yng Nghymru, a noda Estyn:

> "…[to improve standards] there needs to be more focus on teaching and learning. Well, that means that there needs to be less focus on some of the other things, which are unnecessary admin, bureaucracy—whatever you want to call it…we need, I think, to have clearer communication with teachers about that—not only ourselves, but also, I think, Welsh Government."[41]

**61.** O ran ansawdd yr addysgu, meddai NUT Cymru:

> "One other point as well on teaching quality. There's quite a lot of research that says that one of the most powerful tools for improving teaching quality is having teachers observe each other teach—peer observation…"[42]

**62.** Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod camau wedi eu cymryd yn y maes hwn ers lansio'r ymchwiliad. Ym mis Medi 2017, cyhoeddwyd canllawiau i athrawon a phenaethiaid ar gyfer lleihau eu llwyth gwaith gan Estyn (â chymorth Llywodraeth Cymru), y consortia, undebau addysgu ac eraill.[43] Mae'r canllawiau tudalen o hyd yn nodi'r hyn y mae Estyn yn ei ddisgwyl gan ysgolion o ran: cynllunio ac addysgu; rhoi adborth i ddisgyblion ac atebolrwydd; dadansoddi data; a chynllunio strategol.

**63.** Hefyd ym mis Medi 2017, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet raglen i dreialu rôl Rheolwyr Busnes ar gyfer Ysgolion ar draws un ar ddeg o awdurdodau lleol gan ddechrau ym mis Medi.[44] Bydd y cynlluniau peilot hyn yn costio £1.28 miliwn, wedi'i dalu ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Un o nodau'r Rheolwyr Busnes newydd fydd rhyddhau amser ar gyfer penaethiaid ac arweinwyr ysgolion.

---

[40] Tystiolaeth Lafar, Estyn, 30 Mawrth 2017
[41] Ibid
[42] Tystiolaeth Lafar, UCAC, 1 Chwefror 2017
[43] Canllawiau Estyn: Lleihau baich gwaith athrawon a phenaethiaid
[44] Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Datganiad Ysgrifenedig, Rhaglenni i dreialu rôl Rheolwyr Busnes ar gyfer Ysgolion, 14 Medi 2017

## Ymateb Ysgrifennydd y Cabinet

**64.** Nododd Ysgrifennydd y Cabinet mai'r gweithwyr proffesiynol unigol a ddylai geisio cael mynediad at gyfleoedd datblygu proffesiynol eu hunain. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd y safonau proffesiynol newydd a'r modd y bydd Estyn yn cynnwys cynlluniau datblygu i ysgolion, a fydd yn cynnwys elfen o ddatblygu proffesiynol, fel rhan o'u harolygiadau o ysgolion yn creu amgylchedd lle bydd athrawon yn teimlo bod ganddynt hawl i fynnu cael mynediad at hyfforddiant. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor:

> "I'm absolutely aware, to do that we also need to look at the issue of workload, and the quantum of time, and the various ways in which we can make professional learning time available.
>
> But more importantly about setting the expectation on you as a professional, it gives you the right to demand that of your school leader, and the leadership standards that are being brought in for school leaders at the same time sets an expectation on them that they will create that space for their staff to be able to take on those opportunities."[45]

**65.** Yn ogystal â chreu amgylchedd newydd ar gyfer datblygu proffesiynol, roedd tystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet yn awgrymu i Lywodraeth Cymru ystyried ymgymryd â rôl fwy strategol wrth gyflwyno cyfleoedd datblygu proffesiynol. Dywedodd:

> "Since 2016, we have been working to formalise a national professional learning approach, with an increased focus on priorities aligned with the self-improving system, supported by our ongoing engagement with OECD…"[46]
>
> "Regional Professional Learning Action Plans and a National Successful Futures Implementation Plan demonstrate the extensive range of professional learning programmes currently being developed and delivered by consortia in partnership with pioneers to enhance provision…the next 12-18 months will be critical in formalising the national approach to professional learning in readiness for the launch of a fully integrated national approach by September 2018."[47]

**66.** Yn ei thystiolaeth lafar, nododd Ysgrifennydd y Cabinet:

> "[the Welsh Government is] developing a national, overarching approach so that we can ensure that there is a consistency, there is planning, there's no duplication, it's cost-effective and where there are gaps, we can fill those gaps, and to ensure that national priorities are reflected in the professional learning opportunities on the ground."[48]

**67.** O ran gwerthuso, nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod y consortia rhanbarthol wedi comisiynu ystod o werthusiadau mewnol/allanol o'r cyfleoedd datblygu proffesiynol sydd ar gael. Mewn ymateb i'r canfyddiadau a ddaeth i'r amlwg o'r gwerthusiadau parhaus, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

---

[45] Tystiolaeth Lafar, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, 5 Ebrill 2017
[46] Tystiolaeth Ysgrifenedig, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, TT28.
[47] Ibid
[48] Tystiolaeth Lafar, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, 5 Ebrill 2017

> "[the regional consortia are] co-funding work with schools to enable access to accredited post-graduate programmes through HE partners, ranging from post graduate certificate level work in a range of specialisms ranging from equity in education or leadership through, to full Masters qualifications and research at doctorate level."[49]

**68.** Roedd tystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi:

> "The Welsh Government is in discussion with Estyn to commission a national thematic review focused on the quality of emerging professional learning provision to equip practitioners to embed the new curriculum."[50]

## Safbwynt y Pwyllgor

**69.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu'n arbennig bod mynediad at gyfleoedd datblygu proffesiynol o safon yn ymddangos i fod yn broblem sylweddol ar draws y proffesiwn. Mae nifer isel yr athrawon sy'n teimlo eu bod yn cael y datblygiad proffesiynol sydd ei angen arnynt yn bryder yn arbennig, ynghyd â'r ffaith nad yw'r rhaglen datblygu proffesiynol parhaus gyfredol yn darparu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar staff ysgolion i wneud eu swyddi yn effeithiol.

**70.** Mae'r Pwyllgor yn credu, wrth i'r gweithlu symud ymlaen tuag at weithredu'r fframwaith cymhwysedd digidol a'r cwricwlwm newydd, bydd mynediad at gyfleoedd datblygu proffesiynol yn fwyfwy hanfodol. Cryn bryder eto yw gweld bod canlyniadau'r arolwg yn dangos y bu ddiffyg dealltwriaeth neu wybodaeth gan athrawon ynghylch y newidiadau sydd i ddod.

**71.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gwaith pwysig a gynhaliwyd gan ysgolion arloesi i dreialu a helpu i ddatblygu'r cwricwlwm newydd a dysgu proffesiynol, ond mae'n credu, er mwyn i'r proffesiwn yn gyffredinol fod yn gwbl ymwybodol o ddatblygiadau, ac er mwyn paratoi ar gyfer y newid, dylid rhannu gwybodaeth o'r gan ysgolion arloesi yn ehangach.

**72.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu am yr effaith negyddol ar fynediad athrawon at gyfleoedd datblygu proffesiynol yn sgil llwyth gwaith trwm, ac mae'n credu y dylid archwilio gwahanol systemau ar gyfer darparu cyfleoedd datblygu proffesiynol. Dylai hyn gynnwys adolygiad o'r defnydd a wneir o ddiwrnodau Hyfforddiant Mewn Swydd, gan gynnwys yr amser a ganiateir i athrawon fyfyrio ar eu gwaith proffesiynol. Dylid hefyd ystyried hybu rhagor o ddysgu arferion ymhlith cydweithwyr, ac annog mwy o gyfleoedd datblygu a hyfforddi o fewn yr ystafell ddosbarth, er mwyn sicrhau gwell cydbwysedd ar gyfer datblygu proffesiynol.

**73.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r camau sydd wedi'u cymryd yn y maes hwn ers lansio'r ymchwiliad, gan gynnwys canllawiau Estyn ar gyfer athrawon i leihau'r llwyth gwaith, a'r rhaglen i dreialu rôl Rheolwyr Busnes ar gyfer Ysgolion. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i ddweud a yw'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar lwyth gwaith athrawon, ac mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu diweddariadau rheolaidd ar effaith y canllawiau a'r rhaglenni i dreialu rôl Rheolwyr Busnes wrth leihau llwyth gwaith.

**74.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn pryderu nad oes system achredu sy'n sicrhau ansawdd y cyfleoedd datblygu proffesiynol sydd ar gael. Roedd tystiolaeth gan ystod o sefydliadau o blaid creu achrediad

---

[49] Tystiolaeth Lafar, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, 5 Ebrill 2017
[50] Tystiolaeth Ysgrifenedig, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, TT28.

cydnabyddedig ar gyfer datblygu proffesiynol, er mwyn sicrhau bod athrawon yn gwybod eu bod yn derbyn cyfleoedd dysgu o safon.

**75.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet bod y consortia wedi comisiynu ystod o werthusiadau mewnol/allanol o'r cyfleoedd datblygu proffesiynol a gynigir, ac mae'n credu y dylid cyhoeddi manylion cynnwys y gwerthusiadau hynny, a dylid rhannu canlyniadau'r gwerthusiadau hynny gyda'r Cynulliad.

**76.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wrthi'n trafod ag Estyn i gomisiynu adolygiad thematig cenedlaethol a fyddai'n canolbwyntio ar ansawdd y ddarpariaeth datblygu proffesiynol sydd i ddod i alluogi'r ymarferwyr i roi'r cwricwlwm newydd ar waith. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi diweddariad i'r Pwyllgor unwaith y cytunir ar delerau'r adolygiad thematig.

**Argymhelliad 2.** Rhaid i Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod cyfleoedd dysgu gan ysgolion arloesi yn cael eu rhannu'n ehangach ar draws y proffesiwn addysg yn gyffredinol, i helpu i sicrhau bod y gweithlu addysg yn gwbl ymwybodol o ddatblygiadau ac yn barod ar gyfer y diwygiadau sydd i ddod.

**Argymhelliad 3.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet archwilio sut i ddefnyddio diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd yn well, gan roi amser i athrawon fyfyrio ar eu gwaith proffesiynol.

**Argymhelliad 4.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ystyried hybu rhagor o ddysgu arferion ymhlith cydweithwyr, ac annog mwy o gyfleoedd datblygu a hyfforddi o fewn yr ystafell ddosbarth, er mwyn sicrhau gwell cydbwysedd ar gyfer datblygu proffesiynol.

**Argymhelliad 5.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor, wedi i'r flwyddyn academaidd nesaf ddod i ben, ynghylch y rhaglenni i dreialu rôl Rheolwyr Busnes ar gyfer Ysgolion.

**Argymhelliad 6.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ystyried sefydlu system achredu sy'n sicrhau ansawdd y cyfleoedd datblygu proffesiynol sydd ar gael.

**Argymhelliad 7.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch gwerthusiadau mewnol/allanol consortia o'r cyfleoedd datblygu proffesiynol sydd ar gael. Dylid cyhoeddi manylion y gwerthusiadau hynny, a dylid rhannu canlyniadau'r gwerthusiadau â'r Cynulliad.

**Argymhelliad 8.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor, wedi i'r flwyddyn academaidd nesaf ddod i ben, ynghylch effaith canllawiau Estyn ar gyfer athrawon i leihau'r llwyth gwaith.

**Argymhelliad 9.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi diweddariad i'r Pwyllgor unwaith y cytunir ar delerau'r adolygiad thematig ar ansawdd y ddarpariaeth dysgu proffesiynol sydd i ddod.

# 05. Recriwtio a chadw athrawon

**77.** Wrth asesu digonolrwydd gweithlu'r dyfodol, cafodd y Pwyllgor dystiolaeth yn honni mai prinder athrawon oedd un o'r bygythiadau pennaf. Clywodd y Pwyllgor fod dau fater a allai beri bygythiad: y prinder pobl sy'n gwneud cais i fod yn athrawon a nifer yr athrawon sy'n gadael y proffesiwn.

## Niferoedd recriwtio Athrawon.

**78.** Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd Undeb Cenedlaethol yr Athrawon Cymru (NUT Cymru) (sef yr Undeb Addysg Cenedlaethol bellach) fod argyfwng o dan yr wyneb mewn ysgolion ar hyn o bryd o ran recriwtio athrawon. Nododd Teach First Cymru, yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, fod gostyngiad o 38 y cant yn nifer y darpar athrawon uwchradd yng Nghymru mewn degawd ers 2005/06, a rhybuddiodd mai dim ond 15 y cant o athrawon fyddai'n chwilio am rôl yn y dyfodol mewn ysgol sy'n fwy heriol na'u hysgol bresennol.

**79.** Mae ffigurau Llywodraeth Cymru yn dangos bod y canolfannau Addysg Gychwynnol i Athrawon wedi methu â chyrraedd eu targedau cofrestru ar gyfer 2013/14, 2014/15 a 2015/16, sef 1,630 o hyfforddeion ar gyfer pob blwyddyn (750 cynradd, 880 uwchradd).[51]

**80.** Mae'r dystiolaeth a gafwyd wedi nodi bod rhai meysydd dysgu â phrinder athrawon yn waeth, megis:

- pynciau gwyddoniaeth a mathemateg;
- athrawon Cymraeg, yn arbennig o ystyried gweledigaeth Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg;
- mewn ardaloedd gwledig; ac
- ar gyfer swyddi arweinyddiaeth, yn enwedig ar lefel pennaeth.

**81.** Tra'r oedd y Pwyllgor yn cymryd tystiolaeth, lansiodd y pedwar consortiwm addysg rhanbarthol ymgyrch recriwtio 'Darganfod Addysgu', ac maent yn honni bod yr ymgyrch hon wedi helpu i gynyddu proffil addysgu yng Nghymru. Dywedwyd hefyd eu bod yn uwchsgilio adrannau o'r gweithlu presennol i roi iddynt yr arbenigedd sydd ei angen i unigolion ymgeisio am swyddi arbenigol sy'n eu denu neu sy'n anodd recriwtio ar eu cyfer.

## Cymhellion a rhwystrau i recriwtio

**82.** Yn y dystiolaeth ysgrifenedig a'r dystiolaeth lafar bu barn gymysg ynghylch defnyddio cymhellion ariannol fel offeryn i recriwtio ar gyfer y proffesiwn. Er enghraifft, mae Cymdeithas Genedlaethol Prifathrawon Cymru yn galw am ragor o gymhellion i raddedigion safonol ymgymryd â'r proffesiwn, ond nododd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau:

> "Incentivising recruitment to such subjects has been explored but that approach does not necessarily attract the best candidates."[52]

**83.** Bu galw arall am sicrhau bod y cymhellion yng Nghymru o leiaf yn hafal â'r cymhellion sydd ar gael yn Lloegr.

---

[51] Adroddiad Llywodraeth Cymru: Addysg Gychwynnol i Athrawon
[52] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon, TT 20

**84.** Roedd y rhai a ddadleuodd yn erbyn y fantais o gynnig cymhellion ariannol yn teimlo bod gwella amodau gwaith ac enw da'r proffesiwn yn bwysicach er mwyn denu'r ymgeiswyr gorau. Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg fod llawer y gellid ei wneud i wella recriwtio athrawon. Gyntaf oll, peidio ag edrych ar beth yw'r cymhellion yn unig, ond ystyried y rhwystrau gwreiddiol. Aeth Cyngor y Gweithlu Addysg ymlaen i ddweud:

> "it's not 'Push up teachers' pay'—that's not going to attract people into it. It's a whole thing. So, are we enticing them in? Are we sharing the benefits of what a fantastic job it can be, the rewards you get from working with individuals, seeing them develop and learn, as well as making people feel supported and developed in their roles?"[53]

**85.** Pwysleisiodd yr Athro Furlong:

> "[it is important to get] a reputation for running really good courses as well…I think that's actually really, really important. For me, though, probably one of the big ones, in terms of getting high-quality candidates."[54]

**86.** Rheswm arall dros y niferoedd recriwtio isel yw'r ddelwedd gynyddol wael sydd gan addysgu fel proffesiwn, y dadleuir iddi ddeillio o'r problemau llwyth gwaith a nodwyd uchod. Ategir y ddelwedd hon, yn rhannol, gan y sylwebaeth ymddangosiadol reolaidd ar y newyddion ynghylch methiannau ysgolion neu athrawon ynghyd â'r system atebolrwydd. Mae'n ymddangos bod y ddelwedd wael hon yn perswadio pobl i beidio â chael gyrfa yn addysgu.

**87.** Soniodd y consortia hefyd am yr agwedd hon, gan bwysleisio'r angen i sicrhau bod pobl yn ystyried athrawon i fod yn bobl allweddol o fewn ein cymunedau. Maent yn dadlau y byddai sicrhau enw gwell i broffesiwn addysgu yn annog rhagor o bobl ifanc i ymgymryd â'r gwaith. I wneud hyn, dywedodd y consortia:

> "[we need to] raise awareness of the advantages of the profession at various levels, and also to work with people who are already in the profession, to ensure that they are aware of the possibilities in the profession for them to progress in their careers."[55]

Ers dechrau'r ymchwiliad hwn, mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi cyhoeddi newidiadau i'r system gymhellion yng Nghymru. Fe wnaeth Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 24 Hydref 2017 ynghylch Recriwtio Athrawon.[56] Yn y datganiad i'r wasg a ddilynodd, nodwyd y bydd Llywodraeth Cymru yn:

– cynnwys gwyddoniaeth gyfrifiadurol i fod yn bwnc â'r flaenoriaeth uchaf, gan wneud y pwnc yn gymwys ar gyfer y fwrsariaeth fwyaf o £20,000;

– darparu cymhelliant cyfrwng Cymraeg newydd o £5,000 i bobl sy'n hyfforddi i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu addysgu'r Gymraeg mewn unrhyw leoliad eilaidd; a

[53] Tystiolaeth Lafar, Cyngor y Gweithlu Addysg, 30 Mawrth 2017
[54] Tystiolaeth Lafar, yr Athro John Furlong, 30 Mawrth 2017
[55] Tystiolaeth Lafar, Consortia Addysg Ranbarthol, 20 Medi 2017
[56] Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Datganiad Llafar, 24 Hydref 2017

– darparu cymhelliant ychwanegol o £3,000 i fyfyrwyr TAR cynradd sydd â gradd dosbarth cyntaf (neu PhD/gradd Feistr) lle bo'r arbenigedd pwnc mewn Saesneg, Cymraeg, mathemateg, cyfrifiadureg, ffiseg neu gemeg.

Roedd y datganiad i'r wasg a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet hefyd yn nodi ei bod yn bosibl y bydd y myfyrwyr hyn yn gallu gwneud cais am becyn cymorth Diemwnt yn ogystal â'r cymhellion a gyhoeddir.

## Cadw athrawon a chynllunio'r gweithlu

### Cadw

**88.** Mynegodd Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru, y Gymdeithas Athrawon a Darlithwyr a Chymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau eu pryderon o ran gwastraffu athrawon o fewn y system, lle bo athrawon newydd yn rhoi'r gorau i'r proffesiwn ychydig flynyddoedd ar ôl cymhwyso. Mae'n ymddangos bod arolwg gweithlu Cyngor y Gweithlu Addysg yn ategu'r pryderon hyn. Roedd yr arolwg yn dangos pan ofynnwyd i'r ymatebwyr sut yr oeddent yn rhagweld eu gyrfa'n newid yn y tair blynedd nesaf, dywedodd 33.6 y cant eu bod yn bwriadu ymadael â'r proffesiwn. Nododd 2.8 y cant o'r rhai a oedd yn ymadael â'r proffesiwn eu bod yn ymddeol.

**89.** Dywedodd yr Athro Furlong:

> "[I feel that] retention is an issue…there are also lots of complaints about stress…What you do specifically is really, really hard. I do think the issue about the accountability pressures are felt really, really strongly by teachers today. It isn't about the level of work, I think it's actually about the accountability stuff…"[57]

**90.** Roedd eraill hefyd yn dadlau bod y systemau atebolrwydd niferus ar gyfer ysgolion yn creu straen a llwyth gwaith ychwanegol i athrawon. Credir bod y system atebolrwydd yng Nghymru yn cyfrannu at y 52,000 o ddiwrnodau addysgu a gollwyd yn 2015 o ganlyniad i absenoldeb oherwydd salwch a achoswyd gan straen (o'i gymharu â 21,000 o ddiwrnodau yn 2009), y llwyth gwaith trwm a nodwyd uchod ac athrawon sy'n gadael y proffesiwn.

### Cynllunio'r gweithlu

**91.** Roedd sawl cyflwyniad ysgrifenedig yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal rhyw fath o ddadansoddiad o anghenion y gweithlu. Dadleuir y byddai hyn yn helpu i atal neu fynd i'r afael â rhai o'r diffygion a amlygwyd uchod. Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd Estyn:

> "it is vital that heads look at their work as developing the staff that work in their schools. And that means that they should recognise talent, identify talent early in posts, and give opportunities to their staff to show their ability, as I said, to lead, to innovate—if there is illness, for example, that they can then move into a higher post than their current post, so that they can have the experience of doing management work on an interim basis."[58]

**92.** Roedd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau yn cytuno, gan nodi bod rhaid i benaethiaid gynllunio'n rhagweithiol ar gyfer eu holynydd.

---

[57] Tystiolaeth Lafar, yr Athro John Furlong, 30 Mawrth 2017
[58] Tystiolaeth Lafar, Estyn, 30 Mawrth 2017

**93.** Ar 12 Gorffennaf 2016, ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i un o Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad ar gynllunio'r gweithlu, a gyflwynwyd gan Darren Millar AC. Yn ei thystiolaeth lafar, meddai Ysgrifennydd y Cabinet:

> "[the Welsh Government has] a Teacher Planning and Supply Model (TPSM) which is used to inform decisions on intake targets for Initial Teacher Education Training (ITET). The TPSM projects the desired number of teachers required based on pupil projections and current pupil-teacher ratios. It also projects the number of in-service teachers and the subsequent over or under supply of teachers, given flows in and out of service…
>
> In addition, we are working on bringing regulations into force which would enable the collection of a greater level of information on the school workforce in Wales."[59]

**94.** Mewn tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu:

> "if we don't have a correct picture and understanding, we're not going to be able to get the workforce planning of the future right. We need to develop our systems in that area, and we're out to consultation on that at the moment."[60]

**95.** Yr ymgynghoriad y cyfeiriwyd ato gan Ysgrifennydd y Cabinet oedd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gasglu data ynghylch gweithlu ysgolion, a gynhaliwyd rhwng 13 Ionawr 2017 a 3 Mawrth 2017. Roedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar gynlluniau i gyflwyno rheoliadau statudol drafft a fyddai:

– yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ac awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth fanylach am weithlu ysgolion;

– yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor y Gweithlu Addysg ddarparu data ynghylch gweithlu ysgolion o'u Cofrestr Ymarferwyr Addysg; a

– yn symleiddio'r casgliadau data presennol i ddarparu gwybodaeth o ansawdd uwch a lleihau'r baich ar ddarparwr y data.

**96.** Mae crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn bellach wedi'i gyhoeddi.[61] Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i adolygu'r rheoliadau drafft yn seiliedig ar yr adborth a gafwyd yn yr ymgynghoriad.

**97.** Roedd y consortia yn dadlau y bydd datblygu'r cynnig dysgu proffesiynol yn gwella recriwtio a chadw yng Nghymru trwy wneud addysgu yn broffesiwn mwy deniadol. Yn rhannol, bydd hyn oherwydd i'r cynnig fod yn rhan o "lwybr gyrfa clir" sy'n dangos i athrawon y llwybrau dilyniant y mae angen iddynt eu dilyn i gael eu dyrchafu, a byddant yn gallu cael mynediad at hyfforddiant i sicrhau eu bod yn gymwys ar gyfer cam nesaf eu gyrfa.

**98.** Roeddent hefyd yn awgrymu bod y canfyddiadau ynghylch y llwyth gwaith yn rhwystr y gwyddys amdano eisoes mewn perthynas â recriwtio a chadw.

---

[59] Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, ymateb i un o Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad (WAQ70596)
[60] Tystiolaeth Lafar, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, 5 Ebrill 2017
[61] Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gasglu data ynghylch gweithlu ysgolion: Crynodeb o'r ymatebion

## Ymateb Ysgrifennydd y Cabinet

**99.** Mewn llythyr at y Pwyllgor ar 14 Mawrth 2017, soniodd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd Fforwm Arbenigol ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon, o dan gadeiryddiaeth yr Athro John Furlong, a fydd yn adolygu agweddau ar recriwtio, cadw a datblygu athrawon. At hynny, ysgrifennodd:

> "I recently received an internal review on the operation of teaching incentives which I have referred to the ITE Expert Forum for consideration. I have agreed that the existing ITE financial incentives scheme will continue in 2017/18. The Expert Forum will also review evidence of best practice for alternative routes into teaching, exploring in full their potential to support teacher recruitment and retention."[62]

**100.** Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor, meddai Ysgrifennydd y Cabinet:

> "[financial incentives] are to attract people into areas where we are concerned about shortages. What's really important is that we see financial incentives as just part of the package. They, themselves alone, won't be enough, but it is one element of our approach to trying to address some of the shortage subjects. But it can't be enough on its own; we have to have good-quality provision and excellent in-school training experience as well. So, the incentives alone aren't enough."[63]

**101.** Mae cynllun gweithredu newydd Llywodraeth Cymru, 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl' yn pwysleisio'r bwriad i lansio "Rhaglen wedi'i hailddylunio i Athrawon Graddedig" erbyn 2021. Y gobaith yw y bydd y rhaglen newydd hon yn denu rhagor o raddedigion aeddfed o safon uchel i'r proffesiwn.

**102.** O ran statws y proffesiwn addysgu yn y gymdeithas ehangach, aeth Ysgrifennydd y Cabinet ymlaen i ddweud:

> "I think they're not held in as high a regard as they once were…what we can do is listen to the feedback from the OECD that says we're very bad at recognising success and celebrating success."[64]

**103.** Yna rhestrodd Ysgrifennydd y Cabinet rai gweithgareddau a gynhaliwyd i wrthsefyll hyn, gan gynnwys cyflwyno Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru a'r digwyddiad rhagoriaeth a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Estyn. At hynny, ymrwymodd i gynnal arfer gorau lle bo hynny i'w weld, gan ei ddathlu. Cyfeiriodd hefyd at gynllun a gynhaliwyd yn Imperial College Llundain lle bo israddedigion yn cael profiad o addysgu mewn modiwlau sy'n rhan o'u gradd arferol. Esboniodd:

> "how would you know you wanted to be a teacher? How would you instinctively know that this is a profession for you? So, the challenge I've given to some of our HEIs is that if you're in Imperial College in London doing physics…will do a module in explaining physics and teaching physics…I'm very pleased to say that the vice-chancellor of Swansea University has written out to all of his courses saying, 'I want you to develop a module that exposes

[62] Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Llythyr at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mawrth 2017
[63] Tystiolaeth Lafar, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, 5 Ebrill 2017
[64] Ibid

> your students to explaining their subject and teaching their subject', because why would you know that you wanted to be a teacher?"[65]

**104.** Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet fod y modd y caiff y cynllun hwn ei weithredu ychydig yn anwadal ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae cyflwyno rhagor o ddisgyblion i addysgu yn u'r prif heriau a nododd Ysgrifennydd y Cabinet i'r Prifysgolion fel rhan o'i galw iddynt gyfrannu at y genhadaeth gymdeithasol. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd:

> "trying to ensure that workload is manageable is an important issue for recruitment and, crucially, retention after people have trained, and for aspiring leaders."[66]

**105.** O ran cynyddu nifer yr athrawon sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, meddai Kirsty Williams:

> "Welsh students are also eligible for those [highest levels of financial incentives] because we regard it as a subject that we need to financially support as well, so we need to continue to do that. We also need to look at improving the skills of those teachers who, perhaps, speak Welsh at home, speak Welsh within their community, but have a reluctance to use their Welsh language skills within the classroom. Therefore, we continue to invest in support programs that help build that confidence, allowing teachers to go on sabbatical to develop their Welsh skills, to be able to bring that back…but, you're right, having the right number of teachers who can teach through the medium of Welsh is fundamental to the Welsh language strategy, to the successful delivery of the WESPs, once they're reviewed by Aled Roberts, and to the Government's goal around 1 million Welsh speakers."[67]

**106.** Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd ar 5 Gorffennaf 2017 fod Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £4.2 miliwn ychwanegol i gefnogi addysgu a dysgu Cymraeg a phynciau trwy gyfrwng y Gymraeg.[68]

**107.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod gwaith yn cael ei wneud i fynd i'r afael ag absenoldeb athrawon trwy ddatblygu adnodd i ysgolion sy'n galluogi athrawon yn yr ysgol i reoli'n well broblemau iechyd meddwl sy'n codi'n gyson ond sydd ar lefel isel. Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r cymorth galwedigaethol a ddylai fod ar gael ym mhob un o'r ardaloedd lleol.

**108.** Cyfeiriodd Kirsty Williams hefyd at waith Llywodraeth Cymru yn datblygu arweinyddiaeth, gan y gall lefelau straen godi yn sgil gweithio mewn amgylchedd heb arweinyddiaeth arbenigol a chefnogol.

**109.** Pan ofynwyd yn uniongyrchol am dargedau nas cyrhaeddwyd ar gyfer cyrsiau Addysg Gychwynnol i Athrawon, ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> "I think its complex. There's no one set of reasons…I think, ultimately, the way we'll get people to apply is to make teaching a go-to profession—a high-status profession that people aspire to be in. And then, there's no one simple answer

[65] Tystiolaeth Lafar, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, 5 Ebrill 2017
[66] Ibid
[67] Ibid
[68] Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Cyhoeddi'r Cabinet, 5 Gorffennaf 2017

to that, but it is about all these things we're talking about—about managing workload and entering into a profession where you will continue to have those professional learning opportunities."[69]

## Safbwynt y Pwyllgor

**110.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu'n fawr nas cyrhaeddwyd targedau cofrestru ar gyfer cyrsiau Addysg Gychwynnol i Athrawon yn gyson dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'n hanfodol, er mwyn darparu addysg o'r ansawdd ofynnol, fod angen cynyddu niferoedd athrawon, ac y caiff lleoedd eu llenwi ar y cyrsiau. Pryder arbennig yw'r prinder athrawon mewn meysydd penodol.

**111.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu lansiad ymgyrch Darganfod Addysgu, a hoffai weld gwerthusiad cynnar o'r ymgyrch, i bennu a fu'n llwyddiant ac a ddylid rhoi mwy o adnoddau i'r ymgyrch i'w datblygu ymhellach. Yn benodol, dylai'r gwerthusiad ystyried y meysydd mwy difrifol hynny lle bo prinder athrawon, a phennu a fyddai angen ymgyrchoedd recriwtio penodol sy'n fwy uniongyrchol.

**112.** Er bod y Pwyllgor yn croesawu cyhoeddiad Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch y cymhellion newydd ar gyfer recriwtio athrawon, mae'n dal i bryderu am gyn lleied o gymhellion ariannol sydd ar gael i ardaloedd difreintiedig a'r ffaith bod lefelau'r cymhellion sydd ar gael yng Nghymru yn is o gymharu â Lloegr.

**113.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod prinder athrawon cyfrwng Cymraeg ac o leiafrifoedd ethnig yn cael eu recriwtio, ac yn credu y dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i flaenoriaethu recriwtio yn yr ardaloedd hyn. O ran athrawon Cymraeg, mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried nod Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cymhelliant recriwtio newydd o £5,000 i bobl sy'n hyfforddi i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu addysgu'r Gymraeg mewn unrhyw leoliad eilaidd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu i £4.2 miliwn yn ychwanegol gael ei gyhoeddi i gefnogi addysgu a dysgu'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai Ysgrifennydd y Cabinet werthuso effaith yr arian ychwanegol hwn a'r cymhelliant newydd ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor

**114.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn credu bod angen gwneud mwy i recriwtio athrawon o leiafrifoedd ethnig.

**115.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'n fawr ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet y bydd y Fforwm Arbenigol ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon, o dan gadeiryddiaeth yr Athro Furlong, yn adolygu agweddau ar recriwtio, cadw a datblygu athrawon. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai Ysgrifennydd y Cabinet ofyn i'r Fforwm Arbenigol ar Addysg Gychwynnol i Athrawon edrych ar y materion a'r pryderon a nodwyd yn yr adroddiad hwn, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor. Mae'r materion y dylai'r fforwm eu harchwilio yn cynnwys:

- rhesymau dros lefelau recriwtio isel;
- recriwtio tramor;
- recriwtio o ran yr iaith Gymraeg
- recriwtio o leiafrifoedd ethnig.

**116.** Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb i glywed am y cynllun sydd ar waith yn Imperial College Llundain, ac yr anogwyd hyn gan Brifysgol Abertawe Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai Ysgrifennydd y

[69] Tystiolaeth Lafar, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, 5 Ebrill 2017

Cabinet ystyried annog mwy o ddefnydd o'r cynllun hwn ar draws Prifysgolion Cymru, o ystyried y dull anwadal presennol.

**117.** Mae'r Pwyllgor yn credu'n gryf bod angen mynd i'r afael ag effaith y llwyth gwaith trwm ar gadw athrawon ac ar ansawdd addysgu. Mae'n amlwg bod y llwyth gwaith yn cael effaith ar recriwtio, ond nid yw'n glir i ba raddau y mae hyn yn seiliedig ar realiti llwyth gwaith athrawon ynteu'r llwyth gwaith ymddangosiadol. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal gwaith i bennu'r graddau y mae hyn yn rhwystr i recriwtio.

**118.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu am y datganiad a wnaed gan yr undebau addysgu ynglŷn â gwastraffu athrawon o fewn y system, gydag athrawon newydd yn gadael ychydig flynyddoedd ar ôl cymhwyso. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ymchwilio ymhellach i hyn i bennu'r graddau y caiff athrawon eu gwastraffu beth sy'n achosi hyn, ac y dylai dynnu cymariaethau â'r athrawon a gaiff eu gwastraffu mewn gwledydd eraill. Fel rhan o hyn, dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau y cynhelir cyfweliadau ymadael trylwyr â'r sawl sy'n gadael y proffesiwn i bennu'r rhesymau dros adael.

**119.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu na fydd cefnogaeth ddigonol i athrawon newydd yn y blynyddoedd cynnar, ac mae'n credu y dylai Ysgrifennydd y Cabinet archwilio hyn ymhellach ac edrych i ddatblygu cynllun mentora mwy cadarn ar eu cyfer.

**Casgliad 2.** Rhaid mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi'r ffaith na chyrhaeddir targedau cyrsiau Addysg Gychwynnol i Athrawon er mwyn sicrhau ansawdd yr addysgu sy'n ofynnol, cynyddu niferoedd athrawon, a llenwi lleoedd ar y cyrsiau. Pryder arbennig yw'r prinder athrawon mewn meysydd penodol.

**Argymhelliad 10.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet gynnal gwerthusiad cynnar o'r ymgyrch Darganfod Addysgu i bennu a fu'n llwyddiant ac a ddylid rhoi mwy o adnoddau i'r ymgyrch i'w datblygu ymhellach. Yn benodol, dylai'r gwerthusiad ystyried y meysydd mwy difrifol hynny lle bo prinder athrawon, a phennu a oes angen ymgyrchoedd recriwtio penodol sy'n fwy uniongyrchol.

**Argymhelliad 11.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet werthuso effaith y cymhellion recriwtio athrawon cyfrwng Cymraeg newydd, ac effaith y £4.2 miliwn ychwanegol i gefnogi addysgu a dysgu'r Gymraeg, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn.

**Argymhelliad 12.** Rhaid i Ysgrifennydd y Cabinet weithredu ar fyrder i gynyddu lefelau recriwtio athrawon o leiafrifoedd ethnig, ac i recriwtio athrawon ar gyfer ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig.

**Argymhelliad 13.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ofyn i'r Fforwm Arbenigol ar Addysg Gychwynnol i Athrawon ystyried y materion a'r pryderon a nodwyd yn yr adroddiad hwn, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

**Argymhelliad 14.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet annog mwy o ddefnydd ar draws Prifysgolion Cymru o'r cynllun sydd ar waith yn Imperial College Llundain lle bo israddedigion yn cael profiad o addysgu mewn modiwlau sy'n rhan o'u gradd arferol.

**Argymhelliad 15.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet gynnal gwaith i bennu'r graddau y mae llwyth gwaith athrawon yn rhwystr i recriwtio.

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi mewn gwaith ymchwil i bennu lefelau gwastraffu athrawon a'r rhesymau dros hynny. Ochr yn ochr â hyn, dylai

Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau y cynhelir cyfweliadau ymadael trylwyr â'r sawl sy'n gadael y proffesiwn i bennu'r rhesymau dros adael.

**Argymhelliad 17.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet archwilio ymhellach a oes digon o gefnogaeth ar gyfer athrawon newydd yn y blynyddoedd cynnar, a dylid ystyried datblygu cynllun mentora mwy cadarn ar eu cyfer.

# 06. Y safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth

**120.** Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr i'r ymgynghoriad a dargedwyd gan y Pwyllgor yn cefnogi cysyniad y safonau proffesiynol newydd, ond roedd ganddynt bryderon ynghylch y ffordd y cânt eu gweithredu. Fodd bynnag, dywedodd NASUWT ei bod yn gwrthod y safonau newydd. Nododd fod y safonau newydd yn anghyson â darpariaeth y ddogfen tâl ac amodau athrawon ysgol. O ganlyniad, mae'n cynghori ei haelodau i beidio â'u mabwysiadu nes iddynt ddod yn orfodol ar 1 Medi 2018.

## Cymhlethdod y safonau newydd

**121.** Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd NASUWT a NUT y byddent yn hoffi gweld y safonau proffesiynol newydd yn cael eu datblygu ymhellach, gyda'r bwriad o'u gwneud yn fwy hygyrch erbyn mis Medi 2018. Ar hyn o bryd, maent yn teimlo bod y safonau newydd yn rhy feichus. At hynny, mae UCAC ac Estyn yn teimlo bod iaith y disgrifyddion yn rhy amwys ac y gallent arwain at ddehongliad gwahanol o ysgol i ysgol, gan arwain at anghysonderau.

**122.** Mewn ymateb i'r pryderon ynghylch hygyrchedd y safonau, dywedodd yr Athro Waters:

> "I think there are some crisp standards: there are five standards for teaching and leadership with some overarching values and dispositions explained—the sort of givens of the job—and they're crystal clear."[70]

**123.** Aeth yr Athro Waters ymlaen i ddweud y byddai'r safonau rhy gymhleth i fynd trwyddynt pe baent yn cael eu llunio fel copi papur. At hynny, mae gan bob un o'r pum safon sawl disgrifydd, ac mae gwefan Llywodraeth Cymru yn nodi:

> "for the award of Qualified Teacher Status and successful completion of induction it will be necessary to demonstrate all the relevant descriptors."[71]

**124.** Ond yn y Pwyllgor, dywedodd yr Athro Waters mai'r bwriad yw y bydd pobl yn archwilio'r disgrifyddion hyn, ac nid pob disgrifydd drwy'r amser. Mae hyn yn codi'r cwestiwn ynghylch a yw'n hollol gywir dweud bod pum safon pan fydd yn rhaid i athrawon newydd gymhwyso arddangos llawer mwy o gymwyseddau ymddygiadol.

**125.** Mae'r Athro Waters hefyd yn nodi bod y safonau yn rhywbeth y dylai'r athrawon fod yn dyheu atynt ac yn tyfu i mewn iddynt, ac nad ydynt yn fater o brofi eu bod yn ddigon da. Fodd bynnag, bydd angen i athrawon newydd gymhwyso brofi eu bod yn bodloni fersiwn o bob disgrifydd cyn iddynt allu symud ymlaen.

**126.** O safbwynt iaith y safonau newydd, mae'r Athro Waters yn dadlau eu bod yn annealladwy. Dywedodd:

> "once [teachers] started to work with [the new professional standards], the real benefit was in the fact that the statements were multifaceted…the feedback was

[70] Tystiolaeth Lafar, yr Athro Mick Waters, 20 Medi 2017
[71] Safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth: Gwefan Llywodraeth Cymru

that the teachers involved thoroughly appreciated the more complex descriptors."[72]

**127.** Roedd yn dadlau mai un o fanteision eraill y safonau newydd ar eu ffurf bresennol yw:

"they've got to work for children who are taught in some rural school with just two teachers in the middle of Wales alongside somebody who's in a school for 600 or 700 pupils, or a school for 2,000."[73]

**128.** Rhybuddiodd yr Athro Waters fod perygl, o wneud disgrifyddion mor fanwl nad oes modd eu camddehongli, y byddant yn dod yn ystrydebol.

## Gweithredu'r safonau newydd

**129.** Mynegodd undebau y Gymdeithas Athrawon a Darlithwyr, Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon, a'r Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau bryderon ynghylch faint o hyfforddiant datblygu proffesiynol y mae ei angen i gefnogi'r broses o weithredu'r safonau newydd, gan ofni y bydd diffyg cefnogaeth yn arwain at gamddefnyddio'r safonau newydd, neu eu hanwybyddu. Galwodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon am negeseuon cyn gweithredu i sicrhau bod y sector yn deall yn llawn beth yw rôl a diben y safonau newydd. Galwodd Estyn, UCAC a Chymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau hefyd am gyfarwyddyd clir gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut y dylid gweithredu a defnyddio'r safonau.

**130.** Yn ei bapur i'r Pwyllgor, dywedodd yr Athro Waters y caiff y broses weithredu ei chefnogi drwy rannu arfer gorau ar-lein yn swyddogol. Yn ei dystiolaeth lafar, esboniodd:

"the consortia were working together, making sure there's consistency across the regions of Wales, consistency in practice, so that external mentors for NQTs are ready and prepared to go, and school-based mentors are aware of what the processes are needing to be…"[74]

**131.** Aeth yr Athro Waters ymlaen i awgrymu ei fod yn teimlo mai ychydig iawn o hyfforddiant y byddai ei angen ar y proffesiwn ynghylch y safonau newydd. Mae'n derbyn bod rhai darnau lle mae angen i athrawon ddeall y darlun sy'n datblygu, ond ar y cyfan:

"…it's not simply the centre telling them what they've now got to do. It is about them grabbing the agenda and moving it."[75]

**132.** Mae Cyngor y Gweithlu Addysg, Undeb Cenedlaethol yr Athrawon a Chymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon yn teimlo y byddai'r safonau newydd yn gosod llwyth gwaith ychwanegol oherwydd y bydd angen amser ar athrawon i ddod i arfer â'r safonau newydd. Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon:

"it may be assumed that there will be a need for a minimum number of opportunities for an individual and the line manager to meet over an annual

[72] Tystiolaeth Lafar, yr Athro Mick Waters, 20 Medi 2017
[73] Ibid
[74] Ibid
[75] Ibid

> cycle, with time required to both prepare for, and to summarise and record the outcomes of such meetings."[76]

**133.** Dywedodd Estyn:

> "schools will need considerable support in the short, medium and longer terms to use the standards successfully."[77]

**134.** Aeth Estyn ymlaen i rybuddio y dylai'r safonau newydd gefnogi'r rhaglen ddiwygio ehangach, ac na ddylai fod yn dasg ychwanegol sy'n cyfyngu ysgolion rhag ymgysylltu â'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm.

**135.** Dadleuodd yr Athro Waters fod mynediad at ddysgu proffesiynol, ac amser i ddeall y safonau newydd, yn ymwneud â hinsawdd a diwylliant ysgol, gymaint â llwyth gwaith yr unigolyn. Dywedodd, o safbwynt personol, nad yw'n meddwl bod hyn yn fater llwyth gwaith o gwbl. Fodd bynnag, fe wnaeth gydnabod mai her i arweinwyr fyddai creu'r diwylliant lle gall athrawon ddatblygu a chydweithio, ac nad yw hyn yn hawdd.

## Yr amserlen ar gyfer gweithredu'r safonau

**136.** Roedd rhai o'r ymatebwyr yn credu bod yr amserlen ar gyfer gweithredu yn rhy fyr, a nododd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon, Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru, UCAC a Chyngor y Gweithlu Addysg yn benodol y cyfnod byr rhwng cyhoeddi'r safonau a'u gosod yn gyntaf ym mis Medi 2017. Roedd eraill yn teimlo nad oedd yr amserlen fer yn rhoi digon o amser i'r proffesiwn gael gafael ar yr hyfforddiant a'r gefnogaeth y byddai eu hangen arnynt i weithredu'r safonau yn y ffordd orau.

**137.** Roedd UCAC ac Undeb Cenedlaethol yr Athrawon yn credu bod yr amserlen bresennol yn addas ar gyfer athrawon newydd gymhwyso (Medi 2017) ac athrawon cyfredol (Medi 2018). Ond roedd UCAC yn teimlo y byddai'n rhaid aros yn rhy hir i'w cyflwyno ar gyfer rhaglenni newydd addysg gychwynnol athrawon sy'n dechrau yn 2019, ac y byddai hyn yn golygu y bydd yn rhaid i athrawon ar raglenni sy'n dechrau yn 2018 droi at y safonau newydd flynyddoedd ar ôl eu cydweithwyr.

**138.** Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd yr Athro Waters fod y dull graddol wedi cael ei fabwysiadu er mwyn i athrawon allu symud draw i'r safonau newydd ar adeg sy'n gwneud synnwyr iddyn nhw. Roedd yn awgrymu y byddai hyn yn ennyn ymdeimlad o berchnogaeth bersonol dros y safonau, a dywedodd:

> "the problem of changing from one policy to a new one, and one practice to a new one—it's a bit like changing escalators, you know, you've got to readjust quickly, or readjust over time."[78]

## Rôl Cyngor y Gweithlu Addysg

**139.** Yn ystod yr ymchwiliad, dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg ei fod yn teimlo nad oes ganddo'r offer cywir i wneud y gwaith oherwydd nad oes ganddo'r cyfrifoldeb dros ddatblygu'r safonau proffesiynol. Mae'n cyfeirio at ei gyrff cyfatebol ar draws y DU, sy'n meddu ar y pwerau hyn. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig bellach i'r pwyllgor, awgrymodd y byddai'r safonau newydd yn rhwystro yn hytrach na helpu yn ei ffitrwydd statudol i gynnal gwaith, a bod dileu Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol Cyngor y Gweithlu Addysg o'r safonau newydd yn gam yn ôl heb unrhyw resymeg glir.

---

[76] Tystiolaeth Lafar, Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon, 15 Chwefror 2017
[77] Tystiolaeth Lafar, Estyn, 30 Mawrth 2017
[78] Tystiolaeth Lafar, yr Athro Mick Waters, 20 Medi 2017

**140.** Pan holwyd yr Athro Waters am bryderon Cyngor y Gweithlu Addysg ynghylch ei addasrwydd i ymgymryd â gwaith, meddai ei fod yntau'n pryderu am hyn. Fodd bynnag, nododd hefyd fod Cyngor y Gweithlu Addysg yn cyfrannu aelodau o'r gweithgor a ddatblygodd y safonau newydd. Aeth ymlaen i awgrymu:

> "make sure they apply the standards appropriately…maybe we need somebody who can. The challenge is to apply the standards properly, not to say, 'Let's change the standards so that we can make something that works for us in an administrative function."[79]

**141.** Dadleuodd Ysgrifennydd y Cabinet fod angen amser ar Gyngor y Gweithlu Addysg fel corff newydd i feithrin ei gapasiti a mabwysiadu swyddogaethau a chyfrifoldebau newydd pan fydd mewn safle i allu gwneud hynny orau.[80]

## Safbwynt y Pwyllgor

**142.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu am gymhlethdod a hygyrchedd y safonau newydd, gan fod gwahaniaeth barn glir ynglŷn â hyn yn y dystiolaeth a ddaeth i law. Mae'r Pwyllgor yn nodi barn yr Athro Waters bod y pum safon ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth yn y safonau yn rhai clir. Fodd bynnag, mae undebau'r athrawon wedi mynegi'n glir yr hoffent weld y safonau proffesiynol newydd yn cael eu datblygu ymhellach, gyda'r bwriad o'u gwneud yn fwy hygyrch erbyn mis Medi 2018, bod y safonau newydd yn rhy feichus ar hyn o bryd, a bod iaith y disgrifyddion yn rhy amwys.

**143.** Mae'r Pwyllgor o'r farn na ddylai'r safonau newydd roi unrhyw faich pellach ar y proffesiwn addysgu o ran eu gweithrediad na'u defnydd parhaus. Fodd bynnag, mae rhai o'r safonau yn aneglur iawn ac yn anodd eu deall, ac ym marn y Pwyllgor gallent arwain at oblygiadau o ran llwyth gwaith a'r angen am gymorth ar gyfer eu gweithredu. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi ystyriaeth bellach i gymhlethdod a hygyrchedd y safonau. Mae'n hollbwysig pawb ar draws y proffesiwn yn gallu cael mynediad at y safonau yn y fformat gorau iddyn nhw, ac mewn modd sy'n ei gwneud yn hawdd ymgorffori'r safonau yn eu harferion gwaith.

**144.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn pryderu nad yw'r amserlenni ar gyfer y safonau newydd yn rhoi digon o amser i'r proffesiwn gael gafael ar yr hyfforddiant a'r gefnogaeth y mae eu hangen arnynt i weithredu'r safonau yn y ffordd orau. Hefyd, nid yw'r amserlenni ar gyfer gweithredu yn glir ymhlith rhanddeiliaid allweddol, sy'n peri pryder mawr ac yn ychwanegu at y cymhlethdod.

**145.** Mae'r Pwyllgor hefyd eisiau mynegi pryder ynghylch y graddau y mae'r safonau proffesiynol newydd yn cynnig llinell sylfaen ddigonol ar gyfer perfformiad athrawon. Nid yw'n ymddangos bod y safonau fel y'i hysgrifennwyd yn cynnwys unrhyw fesur llinell sylfaen ar gyfer asesu perfformiad athrawon yn ei herbyn. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod rhaid cael mesur i nodi'r safonau a ddisgwylir gan athrawon er mwyn ymgymryd â'u rolau'n effeithiol, fel y gallant ddefnyddio'r safonau newydd i adeiladu o'r lefel honno.

**146.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn pryderu nad oes unrhyw geidwad ar gyfer y safonau, fel sy'n digwydd mewn proffesiynau eraill, ac mae'n credu y dylid sefydlu corff proffesiynol i fod yn gyfrifol am reoleiddio'r safonau. Barn y Pwyllgor yw y gellid ymestyn cylch gwaith Cyngor y Gweithlu Addysg i roi cyfrifoldeb iddo am reoleiddio'r safonau. Un o'r dibenion craidd a ystyriwyd wrth sefydlu Cyngor y Gweithlu Addysg oedd cael corff i gynnal safonau. Fodd bynnag, yn ystod yr ymchwiliad, dywedodd

---

[79] Tystiolaeth Lafar, yr Athro Mick Waters, 20 Medi 2017
[80] Tystiolaeth Lafar, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, 5 Ebrill 2017

Cyngor y Gweithlu Addysg ei hun ei fod yn teimlo nad oes ganddo'r offer cywir i wneud y gwaith oherwydd nad oes ganddo'r cyfrifoldeb dros ddatblygu'r safonau proffesiynol.

**147.** Mae'r Pwyllgor yn nodi barn Ysgrifennydd y Cabinet bod angen amser ar Gyngor y Gweithlu Addysg fel corff newydd i feithrin ei gapasiti a mabwysiadu swyddogaethau a chyfrifoldebau newydd pan fydd yn gallu gwneud hynny orau. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn y gallai Cyngor y Gweithlu Addysg gymryd cyfrifoldeb am safonau proffesiynol nawr.

**148.** Wrth ystyried rôl a chylch gorchwyl Cyngor y Gweithlu Addysg, roedd y Pwyllgor hefyd yn pryderu am ei ddiffyg pwerau i wahardd athrawon dros dro. Er nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â dysgu proffesiynol neu addysg y gweithlu, o ystyried natur rôl Cyngor y Gweithlu Addysg, ac yn enwedig os yw'r corff yn cael cyfrifoldeb dros y safonau, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai fod ganddo'r cylch gorchwyl i wahardd athrawon dros dro mewn amgylchiadau priodol.

**Argymhelliad 18.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi ystyriaeth bellach i gymhlethdod a hygyrchedd y safonau i sicrhau bod pawb ar draws y proffesiwn yn gallu cael mynediad at y safonau yn y fformat gorau iddyn nhw, ac mewn modd sy'n ei gwneud yn hawdd ymgorffori'r safonau yn eu harferion gwaith.

**Argymhelliad 19.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ystyried i ba raddau y mae'r safonau proffesiynol newydd yn cynnig llinell sylfaen ddigonol ar gyfer perfformiad athrawon, a diwygio'r safonau i gynnwys mesur i nodi'r safonau a ddisgwylir gan athrawon er mwyn ymgymryd â'u rolau'n effeithiol.

**Argymhelliad 20.** Dylid ymestyn cylch gorchwyl Cyngor y Gweithlu Addysg iddo fod yn gyfrifol am safonau proffesiynol.

**Argymhelliad 21.** Dylid ymestyn cylch gorchwyl Cyngor y Gweithlu Addysg er mwyn rhoi iddo'r pŵer i wahardd athrawon dros dro mewn amgylchiadau priodol.

# 07. Materion eraill

## Cyfleoedd dysgu proffesiynol i athrawon cyflenwi

**149.** Codwyd y mater o gyfleoedd datblygu proffesiynol i athrawon cyflenwi yn ystod yr ymchwiliad. Dywedodd y consortia GwE, er bod cyfleoedd ar gael i athrawon cyflenwi:

> "…I think we need to work more regarding targeting supply teachers and maybe even a bespoke programme for supply teachers."[81]

**150.** Clywodd y Pwyllgor nad yw athrawon cyflenwi bob amser yn gweithio bob dydd, felly gallant golli cyfleoedd neu'n methu ag ymgysylltu â hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar waith ymarferol mewn ysgolion neu ystafelloedd dosbarth.

**151.** Roedd consortia y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn dadlau, yn achos athrawon newydd gymhwyso:

> "…there's almost a statutory level of consistency, because NQTs have to have a programme of support, and many NQTs are also supply teachers. So, that cohort is dealt with by that requirement."[82]

**152.** Ond fe wnaeth y Gwasanaeth Cyflawni Addysg hefyd gydnabod bod amrywiaeth ar draws y consortia o ran y ffordd y maent yn cynnig cyfleoedd datblygu proffesiynol i athrawon cyflenwi. Mae'n ymddangos bod rhai rhanbarthau yn targedu athrawon cyflenwi yn benodol, tra bod yr arfer hwn yn rhywbeth newydd o hyd mewn rhanbarthau eraill.

## Safbwynt y Pwyllgor

**153.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw athrawon cyflenwi yn cael mynediad i'r ystod lawn o gyfleoedd dysgu proffesiynol sydd ar gael. Er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael addysg o'r ansawdd uchaf ni waeth pwy sy'n eu haddysgu, mae'n hanfodol bod athrawon cyflenwi yn cael yr un lefel o gyfleoedd datblygu proffesiynol ag y mae athrawon amser llawn yn ei chael.

**Argymhelliad 22.** Rhaid i Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod athrawon cyflenwi yn cael mynediad llawn at gyfleoedd datblygu proffesiynol.

## Ymchwil am addysg yng Nghymru

**154.** Roedd ymarferwyr ac academyddion fel ei gilydd, yn enwedig yr Athro Furlong, yn gweld bod diffyg ymchwil am addysg yng Nghymru yn broblem bosibl. Dywedodd, o blith y naw argymhelliad yn ei adroddiad Addysgu Athrawon Yfory, ei fod yn pryderu fwyaf am y canlynol:

> "the one on research capacity…is at a terribly, terribly low ebb… it's just gone downhill in the last 10 years…We haven't got much money, I understand that. I put in specific proposals and there is now the possibility of some money being made available. But, actually, it hasn't been grounded—we don't actually know what's going to happen."[83]

**155.** Roedd yr Athro Furlong yn pryderu:

---

[81] Tystiolaeth Lafar, Gwasanaeth Effeithiolrwydd, 20 Medi 2017
[82] Tystiolaeth Lafar, Y Gwasanaeth Cyflenwi Addysg, 20 Medi 2017
[83] Tystiolaeth Lafar, yr Athro John Furlong, 30 Mawrth 2017

> "there is nowhere to go for close-to-practice research in relation to bilingual education, in relation to the foundation phase, in relation to the teaching of science, technology, engineering and mathematics subjects and in relation to the teaching of children from poor backgrounds. These are all major, major policy issues in education, and we don't have research capacity to address these issues…"[84]

**156.** Mynegodd undebau'r athrawon bryderon hefyd am ddiffyg ymchwil ynghylch addysgeg yng Nghymru. Cwestiynodd y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau a yw ymchwil addysg yn flaenoriaeth i'n prifysgolion. Soniodd Undeb Cenedlaethol yr Athrawon am bwysigrwydd cael tystiolaeth briodol i asesu effaith gwaith diwygio Llywodraeth Cymru.

**157.** Ym mis Medi 2016, rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg y dasg i'r sector addysg uwch yng Nghymru o "ail-ddal cenhadaeth ddinesig".[85] Un agwedd ar y genhadaeth hon oedd datblygu mwy o gapasiti ymchwil am addysg yng Nghymru. Eleni, ym mis Hydref 2017, galwodd Ysgrifennydd y Cabinet eto ar y sector, gan ddweud ei bod am weld cynnydd yn nifer y darlithwyr addysg gychwynnol athrawon sy'n cyflwyno'u gwaith i'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil ac yn cyhoeddi eu gwaith mewn cyfnodolion academaidd perthnasol.[86]

## Safbwynt y Pwyllgor

**158.** Mae'r Pwyllgor yn awyddus i weld mwy o ymchwil am addysg yng Nghymru, ac mae'n credu y byddai nifer y diwygiadau addysg penodol i Gymru yn elwa ar gael mwy o waith craffu a dadansoddi academaidd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn credu y byddai rhannau eraill o'r byd yn elwa ar gael mwy o wybodaeth a dealltwriaeth am y gwaith addysg y mae pobl ar draws y sector yn cyfrannu ato yng Nghymru.

**Casgliad 3.** Mae angen mwy o ymchwil am addysg yng Nghymru, a byddai nifer y diwygiadau addysg penodol i Gymru yn elwa ar gael mwy o waith craffu a dadansoddi academaidd.

## Y Pasbort Dysgu Proffesiynol

**159.** Clywodd y Pwyllgor farn gymysg ynglŷn â'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP). Yn gyffredinol, mae'n cael ei weld fel peth defnyddiol, ond gan nad yw'n orfodol i'r mwyafrif o athrawon, nid yw'n cael ei ddefnyddio'n helaeth ar hyn o bryd. Un o'r rhesymau a awgrymwyd am y diffyg defnydd oedd y ffaith nad yw athrawon wedi arfer â chofnodi eu datblygiad proffesiynol. Y canfyddiad o'r PDP hefyd oedd ei fod yn faich ychwanegol ar lwyth gwaith ac nad yw'n flaenoriaeth, a hynny ar ben eu llwythi gwaith gorfodol mawr.

**160.** Fodd bynnag, cyfeiriodd papur ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet at y PDP fel yr hanfod i ddysgu proffesiynol parhaus, ac amlinellodd rôl gynyddol i'r PDP, gan gynnwys cynyddu mynediad at ddatblygiad proffesiynol ar gyfer y gweithlu addysgol ehangach. Fodd bynnag, nid oes esboniad clir o sut y bydd yn gwneud hynny, heblaw y byddai'n caniatáu i'r gweithwyr hyn fapio'r hyn y maent wedi'i wneud, a allai bennu pa hyfforddiant pellach y gallai fod ei angen arnynt.

---

[84] Tystiolaeth Lafar, yr Athro John Furlong, 30 Mawrth 2017
[85] Yr Her i Brifysgolion yn sgil Brexit - Ail-ddal Cenhadaeth Ddinesig: araith gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
[86] Datblygu cenhadaeth ddinesig Addysg Uwch yng Nghymru: araith gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

## Safbwynt y Pwyllgor

**161.** Mae'r Pwyllgor o'r farn y gallai'r Pasbort Dysgu Proffesiynol fod yn offeryn gwerthfawr y gallai'r gweithlu ei ddefnyddio er ei fudd. Fodd bynnag, hoffai'r Pwyllgor weld mwy o gefnogaeth i'r defnydd o'r PDP, o ystyried ei botensial, ond hefyd oherwydd yr arian sydd eisoes wedi'i wario arno. Gallai'r cynnydd yn y gefnogaeth elwa yn sgil gwerthusiad o'r ffordd y mae'r PDP presennol yn cael ei ddefnyddio, ynghyd â'r rhwystrau rhag ei ddefnyddio.

**162.** Er nad yw hyn wedi codi'n uniongyrchol mewn perthynas â'r ymchwiliad hwn, mae'r Pwyllgor hefyd wedi cael trafodaethau ynglŷn â'r budd posibl i'r PDP pe bai modd ei alinio'n well â Hwb, adnodd ar-lein arall Llywodraeth Cymru, ac mae'n credu y gallai Ysgrifennydd y Cabinet ymchwilio i hyn ymhellach.

**Argymhelliad 23.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod mwy o gefnogaeth i'r defnydd o'r Pasbort Dysgu Proffesiynol, o ystyried ei botensial, a'r arian sydd eisoes wedi'i wario arno. Gallai'r cynnydd yn y gefnogaeth elwa yn sgil gwerthusiad o'r ffordd y mae'r PDP presennol yn cael ei ddefnyddio, ynghyd â'r rhwystrau rhag ei ddefnyddio.

**Argymhelliad 24.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ymchwilio i'r potensial o alinio'r Pasbort Dysgu Proffesiynol yn well â Hwb, adnodd ar-lein Llywodraeth Cymru.

## Rôl datblygiad proffesiynol

**163.** Roedd rhywfaint o dystiolaeth yn gwrthdaro ynghylch y berthynas rhwng rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol. Mynegodd Undeb Cenedlaethol yr Athrawon bryderon y byddai'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) yn dod yn offeryn asesu neu reoli perfformiad yn y pen draw. Roedd hyn yn codi pryderon am y berthynas rhwng rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol yn fwy cyffredinol. Fodd bynnag, dywedodd Estyn ei fod yn meddwl:

> "…that professional learning opportunities need to be identified in the performance management process. That process should be a constructive one."[87]

**164.** Cytunodd Cyngor y Gweithlu Addysg, gan ddweud:

> "…in terms of making sure that everybody is having opportunities to access their development, the current system for being able to identify that, very often, is through performance management, so you'd expect those sorts of discussions to take place."[88]

**165.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet yn ei thro:

> "I would not want people to think that you only engage in professional learning as part of a performance management process. That's not what it should be about…Now, there may be some instances, if there are issues around performance management, where professional learning would be advised and people would be signposted to, encouraged to and required to participate, but

[87] Tystiolaeth Lafar, Estyn, 30 Mawrth 2017
[88] Tystiolaeth Lafar, Cyngor y Gweithlu Addysg, 30 Mawrth 2017

we should never, never make the mistake, I believe, of just equating professional learning simply with performance management."[89]

## Safbwynt y Pwyllgor

**166.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod barn yn bodoli bod cyswllt annatod rhwng rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod ei bod yn iawn bod cyfleoedd dysgu proffesiynol yn cael eu nodi yn y broses rheoli perfformiad, rydym yn awyddus i weld datblygiad proffesiynol athrawon yn cael ei werthfawrogi ynddo'i hun. At hynny, mae'r Pwyllgor am weld datblygiad proffesiynol i athrawon yn cael ei gydnabod fel offeryn i gefnogi twf athrawon, yn hytrach nag offeryn rheoli perfformiad.

**Casgliad 4.** Dylid gwerthfawrogi datblygiad proffesiynol athrawon ynddo'i hun, a'i gydnabod fel offeryn i gefnogi twf athrawon, yn hytrach nag offeryn rheoli perfformiad.

## Defnyddio Hwb

**167.** Er na chododd hyn yn uniongyrchol yn y dystiolaeth, cafwyd peth trafodaeth ynghylch y defnydd posibl o'r system Hwb er budd y gweithlu proffesiynol mewn sawl maes. Rhai o'r enghreifftiau a drafodwyd oedd ei ddefnyddio fel offeryn i rannu arfer gorau, gan gynnwys fel mecanwaith i storio a diweddaru'r PDP.

## Safbwynt y Pwyllgor

**168.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod gwerth posibl Hwb er mwyn datblygu'r gweithlu proffesiynol. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai Ysgrifennydd y Cabinet werthuso effaith Hwb, pa mor dda y caiff ei ddefnyddio, pa mor effeithiol ydyw, a sut y gellir ei ddefnyddio ymhellach i fod o fudd i'r gweithlu.

**Argymhelliad 25.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet werthuso effaith Hwb i weld sut y gellir ei ddefnyddio ymhellach i fod o fudd i'r gweithlu.

[89] Tystiolaeth Lafar, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, 5 Ebrill 2017

# Atodiad A – Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. **Mae trawsgrifiadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar** ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a sefydliad |
|---|---|
| 1 Chwefror 2017 | Neil Foden, Undeb Cenedlaethol yr Athrawon, NUT Cymru<br>Rachel Curley, Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr Cymru ATL<br>Ywain Myfyr, Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)<br>Rex Phillips NASUWT<br>Dr Mair Parry, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant |
| 15 Chwefror 2017 | Tim Pratt, Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau ASCL Cymru<br>Maureen Harris, Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau ASCL Cymru<br>Rob Williams, Cyfarwyddwr Polisi - NAHT Cymru |
| 30 Mawrth 2017 | Meilyr Rowlands, Estyn<br>Claire Morgan, Estyn<br>Huw Watkins, Estyn<br>Hayden Llewellyn, Cyngor y Gweithlu Addysg<br>Angela Jardine, Cyngor y Gweithlu Addysg<br>Yr Athro John Furlong, Prifysgol Rhydychen |
| 5 Ebrill 2017 | Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg<br>Steve Davies<br>Huw Foster Evans |
| 20 Medi 2017 | Anna Brychan, Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwn Canolbarth y De<br>Alan Edwards, Ein Rhanbarth ar Waith<br>Rhys Howard Hughes, GwE<br>Kevin Palmer, Gwasanaeth Cyflawni Addysg De Ddwyrain Cymru<br>Yr Athro Michael Waters, Prifysgol Wolverhampton |

# Atodiad B – Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Sefydliad | Cyfeirnod |
|---|---|
| Adoption UK | TT 01 |
| Cylchgrawn Addysg Cymru | TT 02 |
| Estyn | TT 03 |
| Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar (NDCS) Cymru | TT 04 |
| Chwarae Teg | TT 05 |
| Gwasanaeth Addysg Gatholig | TT 06 |
| Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT Cymru) | TT 07 |
| Teach First Cymru | TT 08 |
| Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) | TT 09 |
| Prifysgol Caerdydd | TT 10 |
| Cyngor y Gweithlu Addysg | TT 11 |
| Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru | TT 12 |
| Prifysgol De Cymru | TT 13 |
| Consortiwm Canolbarth y De | TT 14 |
| Colegau Cymru | TT 15 |
| Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru | TT 16 |
| Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (Cymru) | TT 17 |
| Afasic Cymru | TT 18 |
| Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | TT 19 |
| Cymdeithas Genedlaethol Prifathrawon Cymru | TT 20 |
| Gwasanaeth Effeithiolrwydd (GwE) | TT 21 |
| Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) | TT 22 |
| Comisiynydd y Gymraeg | TT 23 |
| Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol | TT 24 |
| Cymdeithas yr Iaith Gymraeg | TT 25 |
| Gwasanaeth Cyflawni Addysg I Dde Ddwyrain Cymru | TT 26 |
| Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr (ATL Cymru) | TT 27 |
| Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg | TT 28 |

**Gwybodaeth ychwanegol a ddaeth i law**

| Sefydliad | Cyfeirnod |
|---|---|
| Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr (ATL Cymru) | TT FI 01 |
| Cymdeithas Genedlaethol Prifathrawon Cymru | TT FI 02 |
| Undeb Cenedlaethol yr Athrawon, Cymru | TT FI 03 |
| Cyngor y Gweithlu Addysg | TT FI 04 |
| Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (Cymru) | TT FI 05 |
| Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) Atodiad A - F | TT FI 06 |
| Estyn | TT FI 07 |
| Yr Athro Michael Waters | TT FI 08 |
| Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru | TT FI 09 |
| Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol | TT FI 10 |